



NEWID DYFODOL CYMRU

DEMOCRATIAID RHYDDFRYDOL CYMRU
MANIFFESTO 2017

Cynnwys

3 – Nodyn Polisi

4 – Eich cyfle i chi i newid dyfodol Cymru

6 - Diogelu ein Lle yn Ewrop

14 - Sut y bydd Brexit yn effeithio ar Gymru

18 - Unioni System Ddiffygiol

27 - Adeiladu economi sy'n gweithio i chi

41 - Achub ein GIG a'n Gwasanaethau Gofal
Cymdeithasol

52 - Cenhadaeth genedlaethol i ddiwygio addysg yng
Nghymru

65 - Cefnogi Teuluoedd a Chymunedau

80 - Diwallu anghenion Cymru Wledig

87 - Newid Dyfodol Prydain: Cadw ein gwlad yn wyrdd

96 - Amddiffyn Hawliau, Hyrwyddo Cyfiawnder a
Chydraddoldeb

116 - Gwneud Gwell Byd



Nodyn Polisi

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi hyrwyddo datganoli pwerau o San Steffan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae llawer o benderfyniadau a wneir yn San Steffan, megis y rhai sy'n ymwneud ag iechyd, addysg a llywodraeth leol, ond yn effeithio ar Loegr bellach. Mae polisiâu yng Nghymru yn gynyddol wahanol i'r rhai yn Lloegr – gan adlewyrchu dewisiadau, blaenoriaethau ac amgylchiadau gwahanol.

Mae'r maniffesto hwn yn amlinellu'r polisiâu a'r cynlluniau y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gofyn am eich cefnogaeth iddynt yn yr etholiad hwn. Er mwyn rhoi trosolwg cyflawn, rydym yn cynnwys blaenoriaethau a dyheadau ein plaid mewn meysydd polisi datganoledig. Wrth wneud hynny, ein nod yw ei gwneud hi'n glir beth sy'n fater i San Steffan a beth a gaiff ei benderfynu yng Nghymru.

Mae'r Maniffesto ar gael mewn fformat amgen yn:

www.welshlibdems.wales/manifesto

Cyhoeddwyd a hyrwyddwyd gan Robert Griffin ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, oll yn 38, y Rhodfa, Caerdydd, CF24 3AD.





Eich cyfle i newid dyfodol Cymru – cyn ei bod hi'n rhy hwyr!

Mae hwn yn etholiad arbennig iawn. Bydd y mater allweddol – gadael ein 27 gwlad bartner yn Ewrop – yn effeithio arnom ni ac ar fywydau eich plant a'm plant innau **am ddegawdau i ddod.**


Cyhoeddodd Theresa May y câi etholiad ei gynnal er mwyn ennill mwyafrif anferth – gan fanteisio ar anallu Llafur o dan Jeremy Corbyn i roi arweinyddiaeth gref neu hyd yn oed wrthwynebiad cydlynol.

Rydym ni, y Democratiaid Rhyddfrydol, yn brwydro i ennill mwy o seddi yng Nghymru – ac ym mhob rhan o Brydain – fel y bydd ein tîm o ASau yn Senedd y DU yn gryfach i ymgymryd â rôl craffu a herio wirioneddol.

Byddai mwyafrif anferth i'r Torïaid yn rhoi siec wag i Theresa May – ar gyfer ymadawiad Prydain o'r UE, ni waeth beth fo'r telerau y gellir cytuno arnynt na'r niwed a wneir.

Byddai'r mwyafrif hwnnw hefyd yn rhoi'r pŵer tan 2022 i orfodi polisïau a fyddai'n gwneud Cymru yn dlotach drwy doriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn ein gwneud yn wlad lai teg a mwy anghyfartal i fyw ynddi – rhywbeth nad wyf yn credu bod pobl Cymru yn ei ddymuno mewn gwirionedd.

Yn syml, ni all Cymru fforddio llywodraeth Geidwadol ddiatal am y pum mlynedd nesaf.



Yn y maniffesto hwn, rydym yn disgrifio sut y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ateb yr heriau sy'n wynebu Prydain, ac yna rydym yn dweud sut y byddem yn mynd i'r afael â'r problemau ac yn manteisio ar y cyfleoedd.

Mae rhai materion yn cael eu penderfynu yn San Steffan ac mae eraill yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Felly, mae'r maniffesto hwn yn amlinellu prif bolisïau ein plaid ac yn nodi sut rydym am i'r themâu hynny gael eu cyflwyno yng Nghymru – er mwyn diwallu anghenion penodol ein cenedl.

Rwyf yn amddiffynnwr brwd dros fuddiannau Cymru. Mae risg y caiff y buddiannau hynny eu bwrw â morthwyl mawr Brexit a diffyg sensitifrwydd y Torïaid i Gymru.

Gall ein dyfodol fod yn wahanol iawn.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig sail dros **obeithio**. Mae ein gwlad yn llawn pobl dda y gallai eu dyfodol fod yn ddisglair.

Nid oes rhaid i chi dderbyn Prydain gulgalon, gydag ysbytai a gofal cymdeithasol dirywiedig. Gallech fynegi eich penderfyniad terfynol ar gytundeb Brexit – gyda'r opsiwn i aros os ydych yn meddwl ei fod yn gytundeb gwael.

Os ydych am weld Prydain agored, oddefgar ac unedig, os ydych am weld gwrthwynebiad cadarn yn Senedd y DU, os ydych am weld Cymru ffyniannus, llawn gobaith, pleidleisiwch i'r Democratiaid Rhyddfrydol ar 8 Mehefin.

Mark Williams

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru





Newid Dyfodol Cymru

**AMDDIFFYN
EIN LLE
YN EWROP**




1.1 Rhoi'r penderfyniad terfynol i'r bobl

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn agored ein meddwl ac yn edrych tuag allan. Rydym yn credu'n frwd bod perthynas Prydain â'i chymdogion yn gryfach fel rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Ni waeth beth fo'i ddiffygion, yr UE yw'r fframwaith gorau o hyd ar gyfer gweithio'n effeithiol a chydweithredu er mwyn anelu at gyflawni ein nodau cyffredin. Mae wedi arwain yn uniongyrchol at fwy o ffyniant, mwy o fasnach, buddsoddi a swyddi, gwell diogelwch, ac amgylchedd gwyrddach. Mae Prydain yn well ei byd yn yr UE.

Ymgyrchodd y Democratiaid Rhyddfrydol o blaid y DU yn aros yn yr UE. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod canlyniad refferendwm 2016, a roddodd fandad i'r Llywodraeth ddechrau ar y cyd-drafodaethau i adael yr UE. Ond, y penderfyniad a wnaed gan Brydain oedd, yn syml, a ddylem aros yn yr Undeb Ewropeaidd neu ei adael. Nid oedd unrhyw opsiwn ar y papur pleidleisio i ddewis sut y câi ein cydberthnasau â'r UE ynglŷn â materion hollbwysig gan gynnwys masnach, teithio a diogelwch, eu llunio yn y dyfodol.

Er bod cryn ansicrwydd o hyd ynglŷn â sut mae Theresa May yn bwriadu gweithredu, mae'n amlwg bellach bod y Ceidwadwyr yn ymgyrchu dros Brexit eithafol. Bydd





hyn yn golygu gadael y Farchnad Sengl, rhoi terfyn ar symud dirwystr, a rhoi'r gorau i'r Undeb Tollau – er y bydd y dewisiadau hyn yn gwneud y DU yn dlotach ac yn siomi llawer o'r rhai a bleidleisiodd i adael ac a oedd am gael canlyniad gwahanol hyd yn oed.


Mae effeithiau Brexit eisoes yn amlwg. Mae gwerth y bunt wedi plymio. Mae chwyddiant wedi codi. Mae twf yn yr economi wedi arafu, ac mae'r llywodraeth eisoes yn benthyca biliynau yn fwy i lenwi'r bwlch mewn refeniw treth coll. Dywedir wrth bobl ifanc, y pleidleisiodd y mwyafrif llethol ohonynt i aros, nad yw eu lleisiau yn cyfrif. Mae problemau enbyd, megis dyfodol y GIG, yn cael eu hesgeuluso oherwydd maint yr her sy'n gysylltiedig â Brexit.

Bydd yr holl broblemau hyn yn gwaethygu os cawn Brexit llym. Dyna'r dewis anghywir i'r wlad. Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn brwydro i atal y fath Brexit eithafol.

Ar ddiwedd y cyd-drafodaethau, bydd penderfyniad ar y cytundeb. Mae'r Ceidwadwyr am i'r penderfyniad fod yn eu dwylo nhw. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu mai pobl Prydain ddylai gael y gair olaf.

Dyna pam, pan fo telerau ein perthynas â'r UE yn y dyfodol wedi cael eu negodi (dros y ddwy flynedd nesaf yn ôl amserlen y Llywodraeth), y byddwn yn gofyn i bobl





Prydain bleidleisio ar y cytundeb hwnnw mewn referendwm, gan gynnig aros yn yr UE fel yr opsiwn amgen ar y papur pleidleisio. Rydym yn dal i gredu, i'r DU, nad oes unrhyw gytundeb y tu allan i'r UE cystal â'r trefniadau sydd ganddi eisoes fel aelod.


Mae pob pleidlais i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr etholiad hwn yn bleidlais i roi'r penderfyniad terfynol i bobl Prydain.

1.2 Ymladd yn erbyn Brexit eithafol

Yn ystod y cyd-drafodaethau, rydym yn ymrwymo i ddefnyddio ein grym yn Senedd y DU i bwysu dros gadw Prydain mor agos â phosibl i Ewrop. Bydd ein blaenoriaethau yn cynnwys:

- **Diogelu hawliau dinasyddion yr UE a dinasyddion y DU:** Byddwn yn pwysu am i'r DU warantu'n unochrog hawliau gwladolion yr UE yn y DU, gan roi terfyn ar yr ansicrwydd y maent yn ei wynebu o hyd. Byddwn yn galw am ailwampio a symleiddio'r broses gofrestru a'r gofynion ar wladolion yr UE i gael preswyliaeth barhaol a dinasyddiaeth y DU, gan nad yw'r system bresennol yn addas at y diben. Byddwn yn annog y llywodraeth, ac yn defnyddio ein dylanwad ymhlith arweinwyr Rhyddfrydol mewn gwledydd Ewropeaidd, i sicrhau'r un hawliau i ddinasyddion







y DU sy'n byw yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd.

- **Aelodaeth o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau:** Credwn y bydd yn rhaid i unrhyw gytundeb a negodir i'r DU y tu allan i'r UE sicrhau y gall masnach barhau heb reolaethau tollau ar y ffin; ac y bydd yn rhaid iddo gadw aelodaeth o'r Farchnad Sengl, sy'n gwneud masnach rhwng y DU a'r cyfandir yn broses esmwyth drwy ddarparu 'llyfrau rheolau' cyffredin i fusnesau a dull cyffredin o sicrhau bod pawb yn cadw at y rheolau.
- **Symud dirwystr.** Rydym yn cefnogi egwyddor symud dirwystr – byddai rhoi'r gorau iddi yn peryglu ffyniant Prydain a'i henw da fel cymdeithas agored a goddefgar. Mae'n rhaid i unrhyw gytundeb a negodir i'r DU y tu allan i'r UE ddiogelu'r hawl i weithio, teithio, astudio ac ymddeol ym mhob rhan o'r UE. Mae'n rhaid i unrhyw gyfyngiadau a geisir gan y llywodraeth ystyried pwysigrwydd gweithwyr yr UE i economi Prydain, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus.
- **Parchu buddiannau Cymru:** Byddwn yn brwydro i sicrhau y caiff buddiannau hirdymor Cymru eu hystyried yn ystod y cyd-drafodaethau, o'n diwydiant dur i'n Prifysgolion a'n busnesau. Byddwn yn gwrthwynebu unrhyw beth a all wneud Cymru yn wlad lai ffyniannus neu a fydd yn gweld mwy o bwerau yn San Steffan.




- 
- **Cyfleoedd i bobl ifanc:** Mewn byd cynyddol cymhleth sydd â chysylltiadau cynyddol fyd-eang, mae'n hollbwysig bod ein pobl ifanc yn cael yr un cyfleoedd y mae eu rhieni wedi eu cael i weithio, astudio a theithio dramor. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu Erasmus+ a chynlluniau eraill a ariennir gan yr UE sy'n rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc.
 - **Amddiffyn hawliau cymdeithasol a chydraddoldebau:** Mae llawer o hawliau pwysig megis yr hawl i gael cyfnod mamolaeth o 52 wythnos a hawliau i gael gwyliau blyneddol yn seiliedig ar gyfraith yr UE ar hyn o bryd, ac mae llawer o'r hawliau hyn wedi cael eu cadarnhau gan Lys Cyfiawnder Ewrop. Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn brwydo i sicrhau na chaiff yr hawliau hyn eu tanseilio.
 - **Cynnal safonau amgylcheddol:** Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi creu'r safonau amgylcheddol uchaf yn y byd. Mae dyletswydd arnom i genedlaethau'r dyfodol i ddiogelu ein hamgylchedd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn sicrhau y caiff popeth ei wneud i gynnal y safonau uchel hynny yng nghyfraith y DU, gan gynnwys y cydweithrediad agosaf posibl ynglŷn â pholisïau sy'n ymwneud â'r hinsawdd ac ynni.



- 
- **Gorfodi'r gyfraith a chydweithrediad barnwrol:** Mae Europol, y Warant Arestio Ewropeaidd a chyd-fynediad at gronfeydd data heddluoedd wedi helpu i wneud strydoedd Prydain yn fwy diogel. Byddwn yn brwydro dros gynnal y cydweithrediad mwyaf posibl er mwyn sicrhau y caiff troseddwy'r eu dal yn gyflym ac yn effeithiol ac na chaiff yr heddlu ei rwystro gan bentwr o fiwrocratiaeth.
 - **Busnesau a Swyddi Prydain:** Mae'n rhaid i ni ddiogelu cymorth i ddiwydiannau domestig fel ffermio, twristiaeth a'r diwydiannau creadigol, yn ogystal â chymorth rhanbarthol i ardaloedd difreintiedig. Dinas Llundain yw prifddinas ariannol Ewrop ac mae'n rhaid iddi gadw ei hawliau llawn ym marchnadoedd ariannol yr UE.
 - **Cyllid gwyddoniaeth ac ymchwil:** Mae ymchwil yn hollbwysig i'n ffyniant, ein diogelwch a'n lles yn yr hirdymor – ond mae'r bleidlais dros Adael eisoes wedi dechrau effeithio ar raglenni ymchwil presennol ac arfaethedig. Byddwn yn ymgyrchu yn erbyn unrhyw ostyngiad mewn buddsoddiad ym mhrifysgolion y DU a'u hawl i wneud cais am gyllid yr UE ar delerau cyfartal.



- 
- **Teithio a thwristiaeth:** Mae Prydain yn wlad sy'n edrych tuag allan, a chanddi fuddiannau masnachol a hamdden ledled y byd, yn enwedig yn Ewrop. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gadw buddiannau i deithwyr a thwristiaid megis y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd, taliadau trawsrwydweithio is a phasbortau i anifeiliaid anwes, y mae pob un ohonynt mewn perygl drwy adael yr Undeb Ewropeaidd.
 - **Cadw'r DU yn heddychlun ac yn unedig:** Mae'r setliad heddwch yng Ngogledd Iwerddon a'r posibilrwydd y bydd yr Alban yn pleidleisio dros adael y DU er mwyn ailymuno â'r UE yn y fantol yn y cyddrafodaethau hyn ynglŷn â Brexit.






Newid Dyfodol Cymru

BREXIT

A

CHYMRU




Democratiaid Rhyddfrydol Cymru sydd â'r gwreiddiau hynaf o blith yr holl bleidiau yng Nghymru ac rydym wedi ymladd dros ein cymunedau ers dros 150 mlynedd. Rydym yn ymrwymedig o hyd i hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru ar bob cyfle – buddiannau sydd mewn perygl o gael eu bwrw gan ysgytiadau Brexit.

Mae Cymru yn cael mwy o gyllid y pen o'r UE na rhannau eraill o'r DU. Rydym wedi cael dros £4 biliwn o fuddsoddiad ers 2000, gan adeiladu a gwella ffyrdd, creu a diogelu mwy na 17,000 o swyddi, a rhoi cyfleoedd di-ben-draw i bobl ifanc weithio, byw a theithio dramor.

Mae 60% o allforion Cymru yn cael eu hallforio i'r UE. O'n busnesau lleiaf i'n diwydiannau mwyaf, rydym wedi cael budd o'n haelodaeth o'r Farchnad Sengl. Mae rheolau cyffredin – y mae gweinidogion y DU ac ASEau yn chwarae rhan lawn yn y broses o'u llunio – yn galluogi ein ffermwyr, ein ffatrioedd a'n busnesau i allforio eu nwyddau a'u gwasanaethau i'r farchnad sengl fwyaf yn y byd heb wynebu biwrocratiaeth ormodol na thariffau sy'n gwneud eu nwyddau'n rhy ddrud.

Mae'r cynnyrch amaethyddol a allforiwn o'r radd flaenaf. O adael y farchnad sengl bydd tariffau'n cynyddu'n sydyn. Rydym yn allforio 93% o gig oen Cymru i'r UE. Ar ôl gadael y farchnad sengl bydd ein ffermwyr yn wynebu tariffau o hyd at 40% – a chwotâu hefyd. Mae ffermwyr ucheldiroedd Cymru yn wynebu'r






posibilrwydd o gytundeb dinistriol gan wleidyddion yn San Steffan. Mae'r swm o £250m y flwyddyn y mae Cymru yn ei dderbyn ar ffurf cymorth ariannol y PAC mewn perygl, gan beryglu dyfodol ein ffermydd bach; asgwrn cefn yr economi wledig.

Mae twristiaeth yn ffynhonnell fawr o gyflogaeth yng Nghymru. Ond mae ein gwestai a'n bwytai yn dweud bod angen pobl o wledydd Ewropeaidd eraill, yn ogystal â phobl o Gymru, i lenwi'r holl swyddi – yn enwedig yn ystod y tymor prysur. Os bydd y gweithwyr hynny o'r UE a'u cyflogwyr yng Nghymru yn wynebu gweithdrefnau cymhleth, oedi ac ansicrwydd, ni fydd gan ein diwydiant twristiaeth y gweithwyr i ffynnu a chreu hyd yn oed mwy o swyddi. Yn lle hynny, efallai y bydd rhai yn mynd yn llai a bydd eraill yn gorfod cau.

Yn olaf, mae mwy na 4,000 o'n meddygon a'n nyrsys yng Nghymru yn ddinasyddion yr UE, sy'n gofalu am ein hanwyliaid ac yn cadw ein hysbytai i fynd. Bydd cytundeb a fydd yn rhoi terfyn ar hawl pobl i symud yn ddirwystr yn cael effeithiau dwys ar ein GIG – a hefyd ein gwasanaethau gofal cymdeithasol. Byddwn yn diogelu'r gwasanaethau hollbwysig hyn drwy ymladd i ddiogelu hawliau dinasyddion yr UE i aros yn y DU.

Ar ôl gadael yr UE, bydd pwerau a chyfrifoldebau yn dychwelyd i Brydain. Byddwn yn dadlau o blaid datganoli'r pwerau a'r cyfrifoldebau priodol i Gymru, fel





y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn agosach i bobl Cymru. Byddwn yn gwrthsefyll ymgais gan San Steffan i gipio pwerau mewn meysydd polisi datganoledig.

Ni all Cymru fforddio ymagwedd niweidiol y Ceidwadwyr tuag at Brexit. Mae angen ar Gymru wrthbleidiau yn Senedd y DU a fydd yn brwydro dros fuddiannau Cymru ar bob cyfle.


Ni fydd yr wrthblaid adeiladol honno.





NEWID DYFODOL CYMRU

**UNIONI
SYSTEM
DIFFYGIOL**



Mae Prydain yn dioddef oherwydd system wleidyddol sydd wedi'i gorganoli nad yw'n ddigon agored nac atebol. Nid yw Senedd y DU yn cynrychioli'r etholwyr yn deg ac mae'n wan o ran cyfyngu ar rym y Llywodraeth. Mae Tŷ'r Arglwyddi anetholedig yn bodoli o hyd, mae llywodraeth leol wedi'i llesteirio gan reolaeth ganolog, ac mae pobl yn teimlo nad oes ganddynt fodd effeithiol i dynnu sylw at eu pryderon a'u blaenoriaethau. Does dim rhyfedd bod pobl yn teimlo rhwystredigaeth a dicter tuag at y system.

Gwelwyd y dicter hwn yn fwyaf diweddar yng nghanlyniad refferendwm yr UE, ond yn eironig ddigon, roedd etholwyr yn mynegi barn ar berfformiad sefydliadau gwleidyddol Prydain llawn cymaint â sefydliadau Ewropeaidd. Mae Bil Diwygio Mawr y Ceidwadwyr yn bygwth canoli grym hyd yn oed yn fwy, gan roi pwerau i lywodraeth ganolog newid rhannau helaeth o'r llyfr statud heb graffu seneddol priodol.

Credwn mewn gwlad lle mae gan bobl bŵer dros eu bywydau eu hunain a'r ffordd y caiff Cymru ei rhedeg. Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen ailfywiogi ein system wleidyddol – atgyfnerthu datganoli, cyflwyno'r achos ein bod yn gryfach gyda'n gilydd nag ar wahân, ac ennyn mwy o ymddiriedaeth yn ein sefydliadau.





Blaenoriaethau'r Democratiaid Rhyddfrydol fydd:

Democratiaeth fwy cynrychioliadol, gyda system pleidleisio deg mewn etholiadau i lywodraeth leol a San Steffan.
Sicrhau Cynulliad cryfach gyda mwy o bwerau wedi'u datganoli, mewn Teyrnas Unedig gadarn, ffederal.
Cyflwyno pleidleisiau o 16 oed ar gyfer pob etholiad a diwygio Tŷ'r Arglwyddi i roi mandad democratiaid iddo.

3.1 Gwleidyddiaeth well

Mae pleidleisiau annheg, prosesau penderfynu rhy ganolog, grym nawdd, a dylanwad lobïau corfforaethol pwerus yn golygu bod gwleidyddiaeth heddiw yn aml yn allgáu dinasyddion cyffredin a chymunedau lleol a gwneud iddynt ymddieithrio. Mae angen i ni ddiwygio gwleidyddiaeth i'w gwneud yn fwy cynrychioliadol a rhoi mwy o rym i'n dinasyddion er mwyn ennyn mwy o hyder ymhlith y cyhoedd.






Byddwn yn:

- Cyflwyno pleidleisiau yn 16 oed ar gyfer pob etholiad a refferendwm.
- Sicrhau y gwneir pob ymdrech resymol i wneud yn siŵr bod y bobl hynny sydd â hawl gyfreithiol i bleidleisio yn cael eu cynnwys ar y cofrestrau etholwyr, gyda llawer mwy o ymdrech i gofrestru grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- Cyflwyno'r Bleidlais Drosglwyddadwy Sengl i ethol ASau ledled y DU.
- Galluogi pob un o ddinasyddion y DU sy'n byw dramor i bleidleisio dros ASau mewn etholaethau tramor ar wahân, a chymryd rhan yn refferenda'r DU.
- Diwygio Tŷ'r Arglwyddi â mandad democrataidd priodol.
- Cael gwared ar arian mawr mewn gwleidyddiaeth drwy osod terfyn o £10,000 fesul unigolyn y flwyddyn ar roddion i bleidiau gwleidyddol, a chyflwyno diwygiadau ehangach i drefniadau cyllido pleidiau ar sail adroddiad 2011 y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.
- Atgyfnerthu rhyddidau gwleidyddol aelodau Undebau Llafur drwy adael iddynt ddewis pa blaid wleidyddol y maent am ei chefnogi drwy'r ardoll wleidyddol.



- Canslo'r adolygiad o ffiniau y bwriedir iddo gyflwyno adroddiad yn 2018. Er byddai angen sefydlu etholaethau newydd ar gyfer system bleidleisio newydd, credwn y dylai adolygiadau o ffiniau etholaethau barchu cymunedau daearyddol naturiol, gyda mwy o hyblygrwydd i'r Comisiwn Ffiniau wroddi wrth gyfartalwch union er mwyn ystyried cysylltiadau cymunedol a pharhad cynrychiolaeth, ac y dylent gael eu cynnal bob deng mlynedd.
- Awdurdodi darlledu Dadleuon yr Arweinwyr ar y teledu mewn Etholiadau Cyffredinol yn seiliedig ar reolau a bennir gan Ofcom ynglŷn â strwythur a chydbwysedd, a chaniatáu gadael yn wag gadeiriau arweinwyr sy'n gwrthod bod yn bresennol.
- Cryfhau ac ehangu'r cofrestru lobïo a gwahardd ASau rhag derbyn gwaith lobïo â thâl.
- Cyflwyno treialon o bleidleisio ar y penwythnos er mwyn helpu i gynyddu'r niferoedd sy'n pleidleisio mewn etholiadau.
- Cyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu ar gyfer rhestrion byrion seneddol sy'n cynnwys ymgeiswyr BAME ac LGBT+ yn unig.
- Gwneud Senedd y DU yn fwy ystyriol o deuluoedd, a sefydlu adolygiad i fraenu'r tir ar gyfer trefniadau rhannu swydd i ASau.






Mae'r ymchwiliadau diweddar gan y cyfryngau, yr heddlu a'r Comisiwn Etholiadol i ymgeiswyr a dorrodd derfynau gwariant o bosibl yn Etholiad Cyffredinol 2015 yn dangos nad yw'r system bresennol yn addas at y diben. Mae'n rhaid mai'r nod yn amlwg yw sicrhau bod pob gwariant ar ddeunydd ymgyrchu sydd wedi'i dargedu at etholaeth benodol, ac yn enwedig at bleidleiswyr o fewn yr etholaeth honno, wedi'i gynnwys yn ei ffurflen wariant, yn hytrach na'i gyfrif yn erbyn terfyn plaid cenedlaethol.

Yn ein barn ni, nid oes gan bleidiau gwleidyddol eu hunain unrhyw gymhelliant i newid y system bresennol. Felly, byddwn yn rhoi'r dasg o lunio fframwaith ar gyfer system dreuliau gyfoes sy'n llywodraethu'r ffordd y rhedir ymgyrch fodern yn ddigonol i'r Comisiwn Etholiadol, a chyflwyno'r cynigion hyn am bleidlais yn Senedd y DU.

3.2 Teyrnas Unedig wedi'i datganoli

Mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol hanes balch o arwain y ffordd o ran datganoli mwy o bwerau i Gymru a gwledydd eraill y DU. Byddwn yn sicrhau mwy o bwerau i Gymru ac i bob un o'r gwledydd mewn Teyrnas Unedig gryf, ffederal.






Mae newidiadau wedi digwydd yn gyflym. Bellach, mae angen sicrhau bod yr holl drefniadau newydd yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydlynol ac felly byddwn yn sefydlu Confensiwn Cyfansoddiadol i'r DU, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pleidiau gwleidyddol, y byd academiaidd, cymdeithas ddinesig ac aelodau'r cyhoedd, ac yn cael y dasg o lunio cyfansoddiad wedi'i godio'n llawn i'r DU, gan gyflwyno adroddiad o fewn dwy flynedd.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw bwerau mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig sy'n cael eu hailwladoli o ganlyniad i Brexit yn cael eu datganoli'n briodol, ac yn sicrhau na chaiff pwerau na chyfrifoldebau o'r fath sydd wedi'u hailwladoli eu datganoli er anfantais gwledydd y DU.

Rydym yn croesawu'r Ddeddf Cymru newydd, y bwriedir iddi weithredu Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi Sant a sicrhawyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol mewn Llywodraeth Glymblaid – ond nid yw'n mynd yn ddigon pell.





Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn sicrhau mwy o bwerau i Gymru drwy weithredu gweddill cynigion Rhan 1 Silk ar bwerau ariannol a chynigion Rhan 2 Silk i ddatganoli pwerau dros drafndiaeth, pob porthladd yng Nghymru, ynni, darlledu, treth teithwyr awyr, cyfiawnder ieuenctid, plismona a phwerau cyfiawnder eraill.

Byddwn yn codi statws y Cynulliad Cenedlaethol, gan atgyfnerthu ei allu i graffu ar ddeddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Byddwn yn lleihau'n sylweddol nifer y pwerau a gedwir yn ôl i San Steffan ac yn atal San Steffan rhag gweithredu'n groes i ewyllys Cymru ar faterion datganoledig. Byddwn yn cydnabod Cymru fel awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

Ymhlith y pwerau eraill y byddem yn eu datganoli mae cyllid Network Rail mewn perthynas â rhwydwaith Cymru, caniatáu i Lywodraeth Cymru sefydlu ei gwyliau banc ei hun a rhoi'r pŵer i Gomisiynydd Plant Cymru ystyried materion sy'n effeithio ar blant yng Nghymru ond nad ydynt o dan reolaeth Llywodraeth Cymru.

Er mwyn helpu i greu swyddi a hybu twf yng Nghymru, byddwn yn diddymu'r tollau, sy'n ystumio'r economi, ar y Bont dros Afon Hafren, ar ôl i'r costau gael eu hadennill yn 2018.





3.3 Cyllid

Mae anghenion gwledydd y Deyrnas Unedig wedi bod yn wahanol o ran cyllid ers peth amser. Fformiwla Barnett yw'r hyn a ddefnyddir i addasu dyraniadau gwariant ledled y DU.


Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol eisoes wedi sicrhau estyniad sylweddol i bwerau ariannol i wledydd y DU a byddwn yn datganoli pwerau cyllidol pellach i'r llywodraethau datganoledig.

Rydym yn cydnabod canfyddiadau Comisiwn Holtham bod fformiwla Barnett yn tanariannu Cymru a byddwn yn comisiynu gwaith i ddiweddarau'r dadansoddiad hwn. Byddwn yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd drwy sicrhau ar unwaith bod gwaelodlin Barnett yn cael ei phennu fel bod Cymru yn cael ei hariannu'n deg, a cheisio cynyddu grant bloc Cymru i lefel deg dros dymor seneddol.



NEWID DYFODOL CYMRU

**ADEILADU
ECONOMI SY'N
GWEITHIO
I CHI**



Mae ein heconomi yn anghytbwys. Mae gwrthgyferbyniadau mawr rhwng rhanbarthau, rhwng yr hen a'r ifanc, a rhwng y rhai llwyddiannus a'r rhai a adawyd ar eu hôl.

Mae angen economi gynaliadwy a chytbwys ar Gymru, nid yn unig i helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus ond am fod twf a mentergarwch yn creu swyddi a chyfleoedd i bawb.

Byddwn yn mynd ati i gefnogi twf nawr a rhoi economi gynaliadwy ar waith sy'n gweithio i bawb yn yr hirdymor: ffyniannus, gwyrdd, agored a theg.

Mae gweithredoedd y Ceidwadwyr wedi tanseilio gwaith y Llywodraeth Glymblaid i unioni'r economi. Maent wedi dewis peryglu dyfodol ein heconomi yn yr hirdymor drwy gyfyngu ar wariant hollbwysig ar seilwaith a chreu gorddibyniaeth ar wariant defnyddwyr wedi'i sbarduno gan ddyled er mwyn cynnal twf. Maent wedi blaenoriaethu eu huchelgais fyrdymor eu hunain yn gyson, a hynny ar draul ffyniant economaidd hirdymor. Yn anad dim, mae cytundeb Brexit gwael yn taflu cysgod dros ein heconomi.



O ganlyniad, mae ein heconomi yn y cyflwr mwyaf bregus ers dirwasgiad 2008. Mae angen rhaglen fuddsoddi radical arnom er mwyn hybu twf, datblygu seilwaith newydd sy'n addas at y diben a chael ein heconomi ar y trywydd cywir.


Dyna pam y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn:

Hybu'r economi drwy raglen fawr o fuddsoddi cyfalaf gyda'r nod o ysgogi twf ym mhob rhan o'r DU.
Dileu'r diffyg ar wariant o ddydd i ddydd erbyn 2020 er mwyn rheoli'r ddyled genedlaethol, ac yna'n benthycu i fuddsoddi yn unig.
Cynyddu'r Dreth Incwm 1 geiniog er mwyn galluogi Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cadarn ar gyfer y dyfodol.

4.1 Sefyllfa ariannol gyfrifol: Buddsoddi yn Nyfodol Prydain

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwrthod ymrwymiad niweidiol ac afresymegol y Ceidwadwyr i sicrhau gwargedion cyllidebol mewn gwariant cyfalaf a referniw, gan wneud toriadau dwfn, diangen mewn gwariant a chwtogi ar y cyfleoedd ar gyfer buddsoddi cyfalaf mawr ei angen. Ond nid ydym yn bwriadu gwastraffu ein hymdrechion glew i reoli'r diffyg yn ystod blynyddoedd y Llywodraeth Glymblaid. Felly, byddwn yn





ymrwymo i ddileu'r diffyg mewn gwariant o ddydd i ddydd erbyn 2020. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu sicrhau bod dyled fel cyfran o gyfoeth y wlad yn gostwng drwy gydol y tymor seneddol, oni fydd dirwasgiad. Unwaith y byddwn wedi mantoli ein gwariant presennol byddwn yn sicrhau bod gwariant cyhoeddus cyffredinol yn tyfu'n unol â'r economi yn fras.


Mae economi sefydlog hirdymor yn gofyn am fwy na disgyblaeth dros wariant yn unig. Mae'n gofyn i ni fuddsoddi er mwyn rhoi cyfle i'n heconomi barhau i fod yn gystadleuol yn y dyfodol.

Felly, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymrwymo i becyn cyfrifol a realistig gwerth £100 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol yn seilwaith y DU.

Yng Nghymru, byddwn yn blaenoriaethu:

- Gwariant uniongyrchol newydd ar adeiladu tai er mwyn helpu i adeiladu 15,000 o gartrefi ychwanegol, gan helpu i gyflawni ein targed o 300,000 ledled y DU erbyn diwedd y tymor seneddol hwn.
- Gwell mynediad i gysylltiadau ffonau symudol a band eang ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.




- 
- Buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion ac ysbytai er mwyn cefnogi cynnydd mewn capasiti a moderneiddio.
 - Cyllid ychwanegol i ddenu mwy o fuddsoddiad preifat mewn ynni adnewyddadwy, megis creu morlyn llanw cyntaf y byd ym Mae Abertawe.
 - Trydaneiddio Prif Linell Gogledd Cymru a chyllid ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ar ailagor cysylltiadau rheilffyrdd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin.
 - Buddsoddiad ym Metro De Cymru er mwyn cysylltu cymunedau ym mhob rhan o ranbarth De Cymru.

Byddwn yn sicrhau bod y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn ystyried goblygiadau amgylcheddol pob penderfyniad ar seilwaith cenedlaethol yn llawn.

Bydd ymgais y Ceidwadwyr i sicrhau Brexit eithafol yn cael effeithiau difrifol ar sefyllfa ariannol genedlaethol y DU – effeithiau nad yw cynlluniau presennol y llywodraeth yn eu hystyried yn llawn o bosibl. Byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dewis dilyn polisi Ewropeaidd gwahanol iawn, ac felly byddem yn disgwyl sefyllfa ariannol well.





Byddwn yn cynnal Adolygiad o Wariant ar ôl yr Etholiad Cyffredinol a fyddai'n canolbwyntio ar sicrhau effeithlonrwydd, ariannu mentrau gwario i arbed profedig, a buddsoddi mewn technoleg i gael gwasanaethau cyhoeddus a staff rheng flaen ar-lein.

Mae dangosyddion traddodiadol o weithgarwch economaidd megis cynnyrch domestig gros yn rhoi amcan gwael o ffyniant a llesiant gwirioneddol. Felly, byddwn yn cyflwyno strategaeth lesiant i'r DU, gan gwmpasu pob agwedd ar bolisiau'r llywodraeth, gan gynnwys iechyd, tai a'r amgylchedd.

4.2 Trethi teg

Er mwyn mantoli'r cyfrifon ac adeiladu economi gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod pawb yn talu ei gyfran deg. Mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol ymrwymiad hirsefydledig i drethiant tecach, a phan oeddem mewn grym, cynyddwyd y lwfans personol ar gyfer Treth Incwm gennym. Mae'n uchelgais o hyd gennym i wneud trethi yn decach ac yn symlach, er mwyn helpu'r rhai ar incwm isel ac incwm canolig, a sicrhau bod y rhai ar yr incwm mwyaf, a chwmnïau rhyngwladol mawr, yn gwneud cyfraniad teg.






Byddwn yn:

- Anelu yn yr hirdymor, ac wrth i adnodau ganiatáu, at godi trothwy Yswiriant Gwladol i gyflogeion i lefel trothwy Treth Incwm, a diogelu gallu enillwyr incwm isel i gronni hawliau pensiwn a budd-daliadau ar yr un pryd.
- Sicrhau bod y rhai sydd â'r incwm a'r cyfoeth mwyaf yn gwneud cyfraniad teg. Rydym wedi nodi cyfres o fesurau ystumiol, manau gwan a rhyddhad gormodol rhag talu treth a ddylai gael eu dileu. Mae'r rhain yn cynnwys diwygiadau i'r Dreth Enillion Cyfalaf a rhyddhad y Dreth ar Ddifidendau, a rhoi ffocws newydd i'r Rhyddhad i Entrepreneuriaid. Byddem yn gwrthdroi nifer o doriadau mewn trethi gan y Ceidwadwyr, sy'n annheg ac na ellir eu cyfiawnhau:
 - Torri'r Dreth Gorfforaeth o 20% i 17%
 - Toriadau yn y Dreth Enillion Cyfalaf
 - Rhyddhad Estynedig y Dreth Enillion Cyfalaf
 - Y Lwfans Priodas
 - Codi trothwy'r Dreth Etifeddiant
- Cymryd camau llym yn erbyn achosion o efadu ac osgoi'r dreth gorfforaeth, gan gynnwys drwy'r canlynol:
 - Cyflwyno Rheol Atal Osgoi Gyffredinol, gan bennu targed i Gyllid a Thollau EM leihau'r bwlch treth a pharhau i fuddsoddi mewn staff i'w galluogi i gyflawni'r targed hwnnw.



- 
- Diwygio'r Dreth Gorfforaeth er mwyn datblygu system sy'n fuddiol i'r cwmnïau lleiaf ond sy'n sicrhau na all y cwmnïau amlwladol mwyaf osgoi talu symiau sy'n gymaradwy â chystadleuwyr sydd wedi'u lleoli yn y wlad. Byddwn yn ymgynghori ynghylch symud o dreth sy'n seiliedig ar elw i un sy'n ystyried amrywiaeth ehangach o ddangosyddion gweithgarwch economaidd, megis gwerthiannau a throsiant.
 - Gweithio gyda phob lefel o lywodraeth i ddiwygio'r system ardrethi busnes, gan flaenoriaethu diwygiadau sy'n cydnabod datblygiad yr economi ddigidol, lleihau'r baich ar fusnesau bach, a sicrhau bod y stryd fawr yn dal i fod yn gystadleuol. Byddwn hefyd yn ystyried gweithredu Trethiant Gwerth Tir.
 - Cynnal adolygiad llawn o faich trethiant a gwariant rhwng y cenedlaethau er mwyn sicrhau bod polisiau'r llywodraeth yn hyrwyddo tegwch rhwng y cenedlaethau.




4.3 Cefnogi entrepreneuriaid a busnesau bach

Yn ogystal â'r angen am fuddsoddi cyhoeddus mewn seilwaith, mae rôl entrepreneuriaid a busnesau bach wrth sicrhau economi ffyniannus yn hanfodol. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu ei bod yn hollbwysig bod busnesau newydd a'r rhai sydd am ehangu yn gallu cael gafael ar gyllid. Mae llawer o fusnesau bach a masnachwyr hen sefydledig hefyd sy'n asgwrn cefn economïau lleol. Ein blaenoriaeth wrth gefnogi entrepreneuriaid a busnesau bach yw sicrhau y gallant gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt, yn enwedig cyfalaf hirdymor (ac amyneddgar).

Gan weithio gyda lefelau eraill o lywodraeth byddwn am wneud y canlynol:

- Gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol o ran datblygu economaidd, ynghyd â'r adnoddau megis cadw cyfran o incwm ardrethi busnes yn lleol i roi cymhelliant iddo.
- Adolygu ardrethi busnes ac eithriadau er mwyn lleihau beichiau ar gwmnïau bach, a rhoi blaenoriaeth iddynt mewn unrhyw doriadau mewn treth fusnes yn y dyfodol.
- Cyflwyno strategaeth economaidd gytbwys sydd wedi'i harwain gan allforion drwy wella sgiliau ac arloesedd yng Nghymru, a mynediad at gyllid a





chyfalaf a mynediad at farchnadoedd a thwf ledled Cymru.

- Creu 'lwfans cychwyn' newydd i helpu'r rhai sy'n dechrau busnes newydd gyda'u costau byw yn ystod wythnosau cyntaf hollbwysig eu busnes.
- Cefnogi mentrau Dinas-ranbarthau sy'n cael eu datblygu yng Nghaerdydd ac Abertawe ac ystyried rhoi statws statudol iddynt fel yn achos Manceinion Fwyaf neu'r Alban, a chyflwyno fersiynau Cymru o gytundebau pwrpasol i ddinasoedd er mwyn datganoli grym o Fae Caerdydd yn uniongyrchol i gymunedau.
- Cefnogi datblygiad Banc Datblygu i Gymru gyda'r nod o helpu busnesau bach i gael gafael ar gyllid a chymorth; datblygu cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys allforion a mewnfuddsoddi; ac ariannu prosiectau seilwaith mawr.

4.4 Helpu pawb i ennill bywoliaeth weddus

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn cydnabod gwerth hirdymor trin eu cyflogeion yn briodol a datblygu eu sgiliau. Fodd bynnag, mae gormod o enghreifftiau o hyd o gyflogwyr diegwyddor ag arferion gwael, sydd nid yn unig yn cam-fanteisio ar weithwyr ond sydd hefyd yn gallu tanseilio sefyllfa gystadleuol cyflogwyr da. Mae'n rhaid i hyn newid os ydym am roi cyfle teg i bawb ennill bywoliaeth a symud tuag at economi fwy cynhyrchiol.






Byddwn yn:

- Hyrwyddo'r gwaith o greu nod barcud 'cyflogwr da' a fydd yn cwmpasu meysydd megis talu cyflog byw, osgoi interniaethau heb dâl a defnyddio proses recriwtio ddienw ac annog cyflogwyr i'w fabwysiadu'n gyffredinol.
- Cynnal adolygiad annibynnol er mwyn ymgynghori ynghylch sut i bennu Cyflog Byw gwirioneddol ym mhob sector.
- Ymestyn gofynion tryloywder ar gyflogwyr mawr i gynnwys cyhoeddi nifer y bobl sy'n cael llai o dâl na'r Cyflog Byw a'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog canolrifol.
- Moderneiddio hawliau cyflogaeth i'w gwneud yn addas at oes yr economi 'gig', gan geisio adeiladu ar Adroddiad Taylor sydd yn yr arfaeth.
- Cael gwared ar gamddefnyddio Contractau Dim Oriau. Byddwn yn creu hawl ffurfiol i ofyn am contract sefydlog ac yn ymgynghori ynghylch cyflwyno hawl i wneud patrymau rheolaidd o waith yn gytundebol ar ôl cyfnod o amser.
- Atgyfnerthu'r broses o orfodi hawliau cyflogaeth, gan gynnwys dwyn yr asiantaethau gorfodi perthnasol ynghyd a chael gwared ar ffioedd tribiwnlysoedd cyflogaeth.

4.5 Helpu pawb i rannu mewn ffyniant





Mae gormod o bobl yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael ar eu hôl, a hynny'n hollol gyfiawn. Credwn ei bod yn hollbwysig bod gan bawb fuddran yn ein heconomi, fel mai dim ond os bydd pawb yn cael y buddiannau y gallwn fod yn unedig ac yn gystadleuol fel gwlad.

Dylai economi sy'n gweithredu'n dda ac sy'n gweithio dros bawb geisio meithrin amrywiaeth o fathau o fusnesau, gan gynnwys annog modelau amgen megis cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol neu gwmnïau buddiannau cymunedol.

Mae'n hollbwysig sicrhau yr ymgysylltir â chyflogeion a'u bod yn cael eu cynnwys; mae busnesau llwyddiannus yn gweithio dros bob rhanddeiliad. Dyna pam y byddwn yn gwneud y canlynol:

- Annog cyflogwyr i hyrwyddo perchenogaeth gan gyflogeion drwy roi'r hawl i staff mewn cwmnïau rhestredig sydd â mwy na 250 o gyflogeion ofyn am gyfranddaliadau, i'w dal mewn ymddiriedolaeth er budd cyflogeion.
- Cryfhau cyfranogiad gweithwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cynrychiolaeth staff ar bwyllgorau cydnabyddiaeth, a'r hawl i gyflogeion cwmni rhestredig gael eu cynrychioli ar y bwrdd. Byddwn yn newid cyfraith cwmnïau i ganiatáu strwythur bwrdd dwy-haen sy'n





- cynnwys cyflogeion, yn debyg i'r hyn a geir yn yr Almaen.
- Diwygio dyletswydd ymddiriedol a rheolau diben cwmni er mwyn sicrhau y gall ystyriaethau eraill, megis lles cyflogeion, safonau amgylcheddol, budd y gymuned ac arfer moesegol gael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau a wneir gan gyfarwyddwyr a rheolwyr cronfeydd.
 - Gostwng y gofyniad adrodd i ddatgelu cyfranddaliadau i 1% er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ynglŷn â phwy sy'n berchen ar fuddrannau yn y cwmnïau mwyaf.
 - Ei gwneud yn ofynnol bod aelodau bwrdd yn cynnal pleidleisiau cyfrwymol a chyhoeddus ar bolisiau cyflog swyddogion gweithredol.

Mae'n warthus nad oes gan 1.7 miliwn o bobl ym Mhrydain heddiw gyfrif banc, bod 8 miliwn yn cael problemau gyda dyled a bod gan 40% o'r boblogaeth o oedran gweithio gynilion gwerth llai na £100. Er mwyn mynd i'r afael â phroblem allgau ariannol bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Gweithredu ar argymhellion Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Allgáu Ariannol, yn enwedig drwy ehangu cylch gwaith yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gynnwys dyletswydd statudol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol fel un o'i amcanion allweddol.



4.6 Lledaenu cyfleoedd i bob rhan o'r wlad

Mae ffyniant wedi'i ddsbarthu'n anghyfartal iawn ledled y DU. Y tebyg yw y bydd Brexit, gan gynnwys colli £8.9 biliwn o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, ond yn gwaethygu'r problemau a wynebir gan ardaloedd o dan anfantais. Byddwn yn:


- Cymeradwyo morlyn llanw Bae Abertawe ar unwaith er mwyn creu twf cynaliadwy yn y rhanbarth
- Defnyddio polisi caffael cyhoeddus y llywodraeth fel modd i greu twf lleol a datblygu cymunedau, er enghraifft drwy brynu o ffynonellau amrywiol a defnyddio llafur, nwyddau a gwasanaethau lleol, ac annog llywodraeth leol i wneud yr un peth.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r banciau mawr ariannu'r broses o greu sector bancio lleol yn benodol i ddiwallu anghenion BBaChau lleol.





NEWID DYFODOL CYMRU

**ACHUB EIN
GIG A
GWASANAETHAU
GOFAL
CYMDEITHASOL**



Mae iechyd da yn hanfodol er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd bywyd, ac mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl i gadw'n iach, yn ogystal â darparu gofal o ansawdd uchel pan fyddant yn sâl. Mae iechyd meddwl yr un mor bwysig ag iechyd corfforol ac mae'n rhaid iddo gael ei flaenoriaethu er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng y ddau.

Rydym yn byw'n hirach, ond mae hynny'n golygu bod mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau fel diabetes a dementia, y mae angen help arnynt i fyw gydag urddas ac mor annibynnol â phosibl. Mae'n rhaid i ni bennu'r safonau uchaf ym maes gofal ac annog cydweithrediad effeithiol rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn mynd ati i wella ffactorau ehangach fel cartrefi cynnes, aer o ansawdd da a mynediad at ymarfer corff a bwyd iachus fel y gall pawb gael y cyfle gorau i fyw bywyd iach.

Rydym yn cydnabod bod y pwerau i redeg y GIG wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, ond eto mae penderfyniadau a wneir yn Lloegr ym maes iechyd yn effeithio ar lawer o bobl yng Nghymru. Felly, mae'r polisiau hyn yn egluro gweledigaeth a blaenoriaethau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o ran sut y dylai GIG Cymru ddarparu gofal effeithiol i gleifion.



Felly, ein huchelgeisiau i Gymru fydd:

Achub y GIG drwy gynyddu treth incwm un geiniog yn y bunt, gan alluogi Cymru i wario £300m yn ychwanegol er mwyn rhoi'r arian parod ychwanegol sydd ei angen ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Trawsnewid gofal iechyd meddwl gyda safonau amseroedd aros sy'n cyfateb i'r rhai ym maes gofal iechyd corfforol.


Sicrhau bod mwy o nyrsys ar wardiau ysbytai ac yn y gymuned.

Cartref yn hytrach na'r Ysbyty: integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well.

5.1 GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi cael eu tanariannu, ond mae'r angen yn parhau i gynyddu ac mae gofal i gleifion yn dioddef. Yn rhy aml, mae pobl yn gorfod aros yn yr ysbyty ar ôl gorffen eu triniaeth am nad yw'r gofal na'r cymorth dilynol sydd eu hangen arnynt ar gael.






Rydym yn cydnabod mai ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw ein sefydliadau cenedlaethol mwyaf gwerthfawr, a bod angen i ni wneud y dewisiadau cywir a hanfodol i roi ein GIG ar y trywydd cywir ar gyfer y dyfodol.

Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn sicrhau bod sefyllfa ariannol ein system iechyd a gofal cymdeithasol yn gynaliadwy unwaith eto:

- Cynnydd o 1c ar unwaith yng nghyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol Treth Incwm. Bydd hyn yn codi £6bn i'r DU a £300m y flwyddyn i Gymru mewn referiw ychwanegol y byddem am ei weld yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Cyfeirio'r buddsoddiad ychwanegol hwn at feddygon teulu, nyrsys, gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol (a mathau eraill o ofal y tu allan i'r ysbyty), iechyd meddwl ac iechyd y cyhoedd.
- Yn y tymor hwy a chan ddisodli'r cynnydd o 1c mewn Treth Incwm, comisiynu datblygiad Treth Iechyd a Gofal benodol ar sail ymgynghoriad eang, yn seiliedig o bosibl ar ddiwygio Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a fydd yn dwyn ynghyd wariant ar y ddau wasanaeth mewn cyllideb gyfunol ac yn nodi'r hyn a wariwn arnynt yn dryloyw ar slipiau cyflog pobl.




- 
- Parhau i ddadlau dros gomisiwn iechyd a gofal cymdeithasol trawsbleidiol, gan ddwyn ynghyd randdeiliaid i gynnal adolygiad cynhwysfawr o gynaliadwyedd cyllid a gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn y tymor hwy, ac ymarferoldeb mwy o integreiddio.
 - Daeth ein Bil ‘Mwy o Nyrsys’ yn gyfraith gwlad yn ddiweddar, sy’n golygu mai Cymru yw’r wlad gyntaf yn Ewrop i gyflwyno lefelau staffio diogel. Er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwn, byddwn yn cynnal mwy o waith ymchwil i weld lle y dylem ehangu’r gyfraith hon ymhellach i leoliadau eraill.

5.2 Gwerthfawrogi gweithlu’r GIG a gofal cymdeithasol

Adnoddau mwyaf ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw eu staff, sy’n gweithio’n ddiflino o dan bwysau mawr. Byddwn yn:

- Gwarantu hawliau pob aelod o staff y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol sy’n wladolion yr UE, a’r hawl i aros yn y DU.
- Rhoi diwedd ar rewi cyflogau yn y sector cyhoeddus i weithwyr y GIG.
- Diogelu chwythu’r chwiban yn y GIG a chyflwyno llinell gymorth chwythu’r chwiban i GIG Cymru.





Mae meddygon teulu yn benodol wedi bod o dan gryn bwysau, gan adael llawer o bobl yn aros wythnosau i gael apwyntiadau. Meddygon teulu yw craidd y GIG ac mae angen cymorth arnynt i sicrhau y gall y GIG oroesi a ffynnu.

Rydym am weld y canlynol:

- Strategaeth gweithlu genedlaethol, gan sicrhau na fyddwn yn gweld y prinder meddygon teulu, meddygon a nyrsys ysbyty a gweithwyr proffesiynol eraill sydd eu hangen ar y GIG byth eto.
 - Cynllun Mynediad at Feddyg Teulu, sy'n ariannu meddygfeydd i sicrhau y gall pobl gael yr apwyntiadau sydd eu hangen arnynt.
 - Ei gwneud yn haws i gofrestru mewn meddygfa sy'n agos i'ch gweithle.
 - Datblygu ffyrdd amgen o gysylltu meddygon teulu a chleifion, gan ddefnyddio technoleg fodern.
- Cefnogi'r broses o roi pwerau penderfynu go iawn â chyllidebau dirprwyedig i ffederasiynau a chlystyrau o feddygon teulu.




5.3 Gofal cyfartal ar gyfer iechyd meddwl

Mae un o bob pedwar o bobl yn wynebu problem iechyd meddwl mewn unrhyw flwyddyn benodol. Ers gormod o amser, mae iechyd meddwl wedi cael ei waradwyddo a'i anwybyddu. Credwn yn gryf y dylai iechyd meddwl gael ei gymryd yr un mor ddifrifol ag iechyd corfforol ac rydym yn benderfynol o roi'r sylw cyfartal y mae'n ei haeddu iddo. Gwyddom nad oes digon o adnoddau yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen ac, yn y frwydr i gael yr un parch, bod tipyn o ffordd i fynd eto.

Byddwn yn pwysu am y canlynol:

- Cyllid ychwanegol o'r cynnydd o un geiniog mewn treth incwm i'w ddefnyddio i roi buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau iechyd meddwl.
- Cyflwyno safonau mynediad ac amseroedd aros a buddsoddi mewn mynediad at therapiau megis Therapi Ymddygiad Gwybyddol, Cwmsela, a Seicotherapi Rhyngbersonol.
- Cymorth iechyd meddwl gwell i ferched beichiog, mamau newydd a'r rhai sydd wedi comesgor neu sydd wedi rhoi genedigaeth i blentyn marw-anedig.



- 
- Atgyfnerthu'r Concordat Gofal Argyfwng a gwella cymorth dilynol i bobl sy'n mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys ar ôl hunan-niwed neu ymgais i ladd eu hunain
 - Safonau amseroedd aros newydd a gwell gofal argyfwng mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, yn y gymuned a thros linellau ffôn er mwyn sicrhau na chaiff neb mewn argyfwng ei wrthod. Bydd hyn yn ein galluogi i roi terfyn ar y defnydd o gelloedd yr heddlu i bobl sy'n cael argyfwng iechyd meddwl.
 - Rhoi terfyn ar leoliadau y tu allan i'r ardal, gan sicrhau y gall y rhai sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd salwch meddwl gael eu trin yn agos i'w cartref.
 - Mae pob gweithiwr proffesiynol rheng flaen yn y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys mewn ysgolion a phrifysgolion, yn cael gwell hyfforddiant mewn iechyd meddwl.
 - Rhoi'r cyllid a'r cymorth sydd eu hangen ar wasanaethau iechyd meddwl cynhwysol LGBT+.





5.4 Cartref yn hytrach na'r Ysbyty: Cefnogi gofalwyr

Mae angen i ni gael gwasanaethau y gellir eu haddasu i fywydau pobl, nid rhai sy'n gorfodi pobl i addasu eu bywydau i'r gofal sydd ei angen arnynt. Mae'n rhaid i ni symud i ffwrdd oddi wrth system ddarniog i ofal mwy cydgysylltiedig fel y gall pobl gael y gofal sydd ei angen arnynt.

Mae nifer y gofalwyr sy'n deulu yn cynyddu, gan gynnwys 'y genhedlaeth yn y canol' sy'n ceisio gofalu am eu plant a'u rhieni ar yr un pryd. Arwyr di-glod yw gofalwyr; mae angen i ni wneud rhagor i'w helpu.

Byddem yn cynyddu'r swm y gall pobl ei ennill cyn colli Lwfans Gofalwr o £110 i £150 yr wythnos, a lleihau nifer yr oriau o ofal yr wythnos sydd eu hangen i fod yn gymwys.

5.5 Helpu pobl i gadw'n iach

Mae'n well i gleifion a'r GIG os ydym yn cadw pobl yn iach yn y lle cyntaf, ond mae 40% o wariant y GIG ar glefydau y gellir eu hatal. Mae angen i ni wneud rhagor i hyrwyddo ffyrdd o fyw iach, gan wneud pobl yn ymwybodol o beryglon smygu ac yfed gormod o alcohol a chyffuriau eraill, a helpu i wella iechyd meddwl a lles.





Byddwn yn:

- Datblygu strategaeth i fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod, gan gynnwys cyfyngu ar farchnata bwyd sothach i blant, cyfyngu ar hysbysebion ar y teledu cyn 9pm, a chael gwared ar fannau gwan yn y dreth ar ddiodydd llawn siwgr.
- Annog y system labelu goleuadau traffig ar gyfer cynhyrchion bwyd a chyhoeddi gwybodaeth am gynnwys calorïau, braster, siwgr a halen mewn bwytai a siopau cludfwyd.
- Cyflwyno targedau gorfodol ar gyfer lleihau siwgr i gynhyrchwyr bwyd a diod.
- Gostwng cyfraddau smygu, gan gyflwyno ardoll ar gwmnïau tybaco fel eu bod yn cyfrannu'n deg at gostau gofal iechyd a gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu.
- Cyflwyno isafswm pris uned ar gyfer alcohol, yn dibynnu ar ganlyniad terfynol yr her gyfreithiol yn yr Alban.
- Cefnogi arfer da ymhlith cyflogwyr o ran hybu lles a sicrhau bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i barhau i weithio neu ddod o hyd i waith.





Rydym am wneud y canlynol:

Symud tuag at system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n grymuso ac yn annog pobl i reoli eu hiechyd a'u cyflyrau eu hunain yn well a byw bywydau iachach.

Sicrhau bod Proffylaxis Cyn Amlygu (PrEP) i atal HIV ar gael gan y GIG.

Cefnogi ymgyrchoedd effeithiol i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a dysgu o'r hyn sy'n gweithio wrth lunio ymgyrchoedd hybu iechyd newydd i newid ymddygiad.

Datblygu ymgyrch iechyd y cyhoedd sy'n hyrwyddo'r camau y gall pobl eu cymryd i wella eu gwydnwch meddyliol eu hunain.


Byddwn yn datblygu setliad cyfiawn i hemoffiligion y rhoddyd gwaed halogedig iddynt, a'u teuluoedd.





NEWID DYFODOL CYMRU

**EIN
CENHADAETH
CENEDLAETHOL
O DDIWIGIO
ADDYSG**



Diwygio addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi rhoi addysg yng nghanol ein hagenda erioed. Credwn fod pob plentyn yn haeddu dechrau gwyb mewn bywyd fel eu bod yn barod i lunio eu dyfodol eu hunain, ac rydym yn benderfynol o sicrhau bod y system addysg yn dod o hyd i rinweddau gorau pawb a'u rhyddhau.

Rydym yn cydnabod bod pwerau dros ysgolion a cholegau wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, ond eto mae penderfyniadau a wneir yn Lloegr ym maes addysg yn effeithio ar benderfyniadau yng Nghymru. Bellach, gan mai Kirsty Williams AC yw Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, byddwn yn cyflawni ein cenhadaeth genedlaethol i godi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system o falchder a hyder cenedlaethol.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cydnabod rôl ddeuol addysg o ran rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i fod yn rhan o economi gynhyrchiol a chystadleuol, a'u helpu i dyfu'n ddinasyddion hapus ac iach sy'n ymddiddori yn y byd o'u hamgylch.



Dyna pam mai'r blaenoriaethau i Gymru yw:

Cynyddu cyllidebau ysgolion a'r Premiwm Disgyblion yng Nghymru er mwyn eu diogelu rhag costau cynyddol a niferoedd disgyblion, a buddsoddi er mwyn torri maint dosbarthiadau babanod.

Parhau i ehangu'r Premiwm Disgyblion yng Nghymru i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng ein disgyblion mwyaf difreintiedig a'u cyfoedion.

Cyflwyno'r polisi mwyaf blaengar yn y DU ym maes addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr – byddwn yn goruchwyllo newid sylfaenol i system sy'n rhoi cymorth ariannol ar gyfer costau byw beunyddiol pob myfyriwr.

6.1 Mae ansawdd wir yn cyfrif yn y blynyddoedd cynnar

Mae buddsoddi mewn addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn cael effaith enfawr ar gyrraeddiad plant wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Ein plant mwyaf agored i niwed sy'n elwa fwyaf ar leoliad blynyddoedd cynnar rhagorol, gyda phartneriaethau â rhieni yn elfen allweddol.



Byddwn yn:

- Cynyddu cyllid ar gyfer ein Premiwm Disgyblion ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar
- Cefnogi prosiect cenedlaethol i helpu i hybu sgiliau cyfrifiaduro sgiliau plant ysgol gynradd
- Hyrwyddo’r defnydd o adeiladau cymunedol, canolfannau hamdden a safleoedd ysgolion i gynyddu lefel y ddarpariaeth gofal plant

Rydym am wneud y canlynol:


- Cynnig 10 awr yr wythnos o ofal plant o safon am ddim i bob rhiant sy’n gweithio o ddiwedd cyfnod absenoldeb â thâl rhiant (naw mis) nes bod y plentyn yn ddwy oed.
- Cynnig 10 awr yr wythnos o ofal plant o safon am ddim i bob plentyn dwy i dair oed.

6.2 Athrawon – ein hased mwyaf mewn addysg

Rydym am rymuso athrawon a sicrhau eu bod yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi. Rydym am godi statws y proffesiwn addysgu, a chefnogi a meithrin athrawon wrth eu gwaith, gan godi safonau ym mhob ysgol.

Yn sgil datganoli cyflogau athrawon, byddwn yn sicrhau bod athrawon yng Nghymru yn parhau i gael eu trin yn





gydradd ag athrawon ledled y DU ac yn gwarantu hynny, a byddwn yn achub ar y cyfle i ymgorffori ymagwedd genedlaethol tuag at ddysgu a safonau proffesiynol.

Byddwn yn:

- Cyflwyno safonau achredu newydd ar gyfer cyrsiau hyfforddiant athrawon er mwyn denu'r goreuon i'r proffesiwn.
- Sicrhau y caiff biwrocratiaeth yn yr ystafell ddosbarth ei lleihau er mwyn sicrhau y gall athrawon ymroi i addysgu.
- Sicrhau bod Gwobrau Addysgu Proffesiynol blynyddol yng Nghymru i ddathlu arfer gorau.
- Ehangu'r defnydd o reolwyr busnes hyfedr i roi cymorth mwy effeithiol i'r rhai sy'n gadael yr ysgol.
- Cyflwyno safonau addysgu newydd i hyrwyddo rhagoriaeth mewn addysgu a chefnogi dysgu proffesiynol gydol gyrfa i bob athro a'r gweithlu addysg.
- Denu mwy o ymgeiswyr o safon a graddedigion aeddfed galluog iawn i'r proffesiwn addysgu a'u cadw drwy Raglen wedi'i hailddylunio i Athrawon Graddedig.



6.3 Codi safonau addysg

Mae llawer gormod o blant yn methu o hyd â chael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt. Ni allwn siomi ein plant. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol am roi cyfle i bob plentyn fynychu ysgol leol ragorol.

Byddwn yn:

- Llunio, datblygu a chyflwyno cwricwlwm o'r radd flaenaf a fydd yn helpu i godi safonau academiaidd ym mhob un o'n hysgolion
- Sefydlu Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol i baratoi pob arweinydd yn ein system addysg drwy roi'r sgiliau a'r wybodaeth gywir iddynt er budd disgyblion.
- Lleihau maint dosbarthiadau babanod fel y caiff athrawon yr amser i gefnogi anghenion disgyblion unigol er mwyn iddynt allu cyrraedd eu llawn potensial.
- Cyflwyno Rhwydwaith Cenedlaethol o Ragoriaeth ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg, ochr yn ochr â Rhwydwaith Cenedlaethol o Ragoriaeth ar gyfer Mathemateg, er mwyn codi safonau yn ein hysgolion.
- Cyflwyno asesiadau ymaddasol ar-lein ar gyfer profion Llythrennedd a Rhifedd a fydd yn addasu lefel cwestiynau er mwyn cynnig her ar lefel briodol i bob dysgwr.




- Sefydlu un awdurdod goruchwylio a chydgyssylltu rheoleiddio ar gyfer y sector addysg ôl-orfodol
- Parhau i fynd i'r afael â diffyg argaeledd gwerslyfrau Cymraeg a sicrhau adnoddau dwyieithog o'r radd flaenaf ar gyfer ein cwricwlwm newydd.
- Buddsoddi £20 miliwn i gefnogi'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Pennu rheolau newydd sy'n nodi rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig a buddsoddi mewn polisi ysgolion gwledig a bach i godi safonau ym mhob ysgol, ni waeth ble maent wedi'u lleoli.
- Buddsoddi mewn band eang i ysgolion er mwyn sicrhau y gall pob ysgol yng Nghymru ymgorffori'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd a chael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael drwy Lwyfan Hwb.

6.4 Cwricwlwm a chymwysterau

Rydym am i ysgolion gael hyblygrwydd, ond rydym hefyd yn credu bod angen i rieni a phlant wybod y bydd y cwricwlwm ym mhob ysgol yn ymdrin â'r hanfodion, ac y bydd yr athrawon yn addysgwyr medrus sy'n ysbrydoli hoffter o ddysgu.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o wead ein gwlad ac mae gwella mynediad at addysg Gymraeg yn hollbwysig. Credwn y dylai dysgu Cymraeg fod yn agored i bawb ac





y dylai pawb, lle bynnag y bônt yng Nghymru, allu cael addysg o'r ansawdd gorau.

Ochr yn ochr â chyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru, byddwn yn:

- Cynnwys addysg rhyw a chydberthynas ynglŷn â chydysyniad rhywiol, cydberthnasau LGBT+, a phroblemau ynglŷn â delweddau a chynnwys amlwg rywiol.
- Gwella ansawdd addysg alwedigaethol, gan gynnwys sgiliau ar gyfer entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth, a gwella cyngor gyrfa mewn ysgolion a cholegau.
- Gwneud defnydd gwell o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gan sicrhau y gall cyngorau ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg i'r cymunedau hynny sydd ei hangen;
- Gwella cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac ysgolion, gan annog ysgolion i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth a mentergarwch sy'n hyrwyddo profiadau rheolaidd ym myd busnes. Yn benodol, byddwn yn ceisio ysbrydoli mwy o blant a phobl ifanc i ddilyn gyrfaedd technegol a gwyddonol drwy bartneriaeth â busnesau perthnasol.
- Herio stereoteipio ar sail rhyw a rhywioli cynnar, gan weithio gydag ysgolion i hyrwyddo delwedd corff gadarnhaol a chwalu canfyddiadau hen ffasiwn ynglŷn â phriodoldeb pynciau academaidd penodol i'r rhywiau.



- Sefydlu Gwaddol Cenedlaethol dros Gerddoriaeth a fydd yn galluogi mwy o bobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd cerddorol.


6.5 Cael plant a theuluoedd yn barod i ddysgu

Mae ysgolion ar y rheng flaen o ran ymdrin â phlant ac oedolion ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Rydym yn gwybod hefyd na all plant ddysgu'n briodol os nad ydynt yn cael digon o faeth.

Mae rhieni o dan bwysau enfawr ac nid ydynt yn cael fawr ddim cymorth er mai'r cartref yw'r dylanwad mwyaf ar ddysgu plant. Mae angen i rieni gael eu grymuso a'u cefnogi'n briodol, gyda'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i fagu'r genhedlaeth nesaf, a bod yn rhan o'r gwaith o redeg ysgolion eu plant.

Byddwn yn:

- Sicrhau bod pob aelod o staff addysgu yn cael yr hyfforddiant i adnabod problemau iechyd meddwl a bod ysgolion yn rhoi mynediad ar unwaith at gymorth a chwnsela i ddisgyblion.
- Cefnogi ymgyrch 'Yn Barod i Ddysgu' er mwyn helpu rhieni a gofalwyr i baratoi eu plentyn ar gyfer yr ysgol.

- 
- Sicrhau cydweithrediad rhwng sefydliadau addysg a theuluol blaenllaw er mwyn gwella llif gwybodaeth ddefnyddiol rhwng y cartref a'r ysgol heb gynyddu llwyth gwaith athrawon.
 - Helpu i ddarparu prydau bwyd a gweithgareddau o safon mewn ysgolion cynradd yn ystod gwyliau haf yr ysgol.
 - Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion, gan gynnwys bwlio ar sail rhyw, rhywedd, hunaniaeth rhyw, neu fynegiant rhyw.

6.6 Sector prifysgolion o'r radd flaenaf, sy'n agored i bawb

Mae gallu prifysgolion i ddenu cyllid er mwyn cynnal gweithgarwch ymchwil o'r safon uchaf a chyflwyno'r addysgu gorau yn dibynnu ar fod yn agored ac edrych tuag allan. Mae'r gallu i ddenu a chadw'r staff a'r myfyrwyr gorau yn ein prifysgolion o'r radd flaenaf yn hollbwysig. Mae Brexit yn tanseilio'r rhain bob tro.

Mewn grym, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cyflwyno newid sylfaenol i system sy'n rhoi cymorth ariannol ar gyfer costau byw beunyddiol pob myfyriwr, lle mae pob myfyriwr yn cael yr hyn sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Cenedlaethol, a grant cynhaliaeth blynyddol o £1,000 i bawb, nad yw'n destun prawf modd.






Byddwn yn:

- Sicrhau bod pob prifysgol yn mynd ati i ehangu cyfranogiad drwy'r sector cyfan, gan flaenoriaethu eu gwaith gyda myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau, a'i gwneud yn ofynnol i bob prifysgol fod yn dryloyw ynglŷn â meini prawf dethol.
- Cydnabod gwerth staff a myfyrwyr rhyngwladol i brifysgolion a hyrwyddo cydweithredu rhyngwladol.
- Parhau i gyflwyno'r ddadl nad mudwyr yw myfyrwyr ac na ddylent gael eu cyfrif yn yr ystadegau mudo cenedlaethol.
- Dadlau o blaid cymryd rhan yng nghynllun cyfnewid ERASMUS+ i staff a myfyrwyr.
- Ymladd i gadw mynediad at Horizon 2020 a chyllid Marie Skłodowska-Curie Actions.
- Annog Prifysgolion i helpu i godi safonau mewn ysgolion drwy ehangu cynlluniau mentora israddedigion mewn disgyblaethau allweddol megis gwyddoniaeth, ieithoedd a chyfrifiaduro.

6.7 Cyfleoedd gydol oes i ddysgu

Mae angen i ni dyfu sylfaen sgiliau'r wlad, yn enwedig yn y technolegau a'r diwydiannau pwysicaf i ddyfodol economaidd Cymru. Rydym am iddi ddod yn rhywbeth arferol bod busnesau yn derbyn pobl ifanc yn brentisiaid ac yn eu hyfforddi ym mhob sector, a bod






prentisiaethau lefel uwch yn cael eu hystyried yn ddewis amgen sy'n cael ei barchu yn lle addysg prifysgol.

Wrth i'n heconomi newid yn gyflym, mae'r angen i bobl ailhyfforddi a dysgu sgiliau newydd yn bwysicach nag erioed. Nid yw'n wir mwyach y bydd y sgiliau a ddysgwyd yn 18 neu'n 21 oed yn para drwy gydol gyrfa. Mae'r gallu i ddysgu sgiliau newydd neu newid gyrfa hefyd yn hollbwysig o ran creu'r cyfle i bobl lwyddo, ni waeth beth fo eu cyfnod mewn bywyd. Dyna pam mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r angen am ddysgu gydol oes.

Byddwn yn:

- Ehangu mynediad at brentisiaethau, gan gynnwys prentisiaethau lefel uwch, ym mhob sector allweddol megis sectorau creadigol, digidol a pheirianyddol, drwy fwy o gydweithredu rhwng prifysgolion, colegau Addysg Bellach a diwydiant.
- Anelu at gynyddu nifer y prentisiaid o gefndiroedd BAME, sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ym mhob sector diwydiant, ac annog grwpiau heb gynrychioliaeth ddigonol i wneud cais.
- Sicrhau y caiff y derbyniadau o'r Lefi Prentisiaeth yng Nghymru eu gwario ar wella'r mathau o hyfforddiant a mynediad at hyfforddiant.



- 
- Cyflwyno pecyn ychwanegol o gymorth i fyfyrwyr sydd am astudio'n rhan amser neu ar gwrs ôl-raddedig er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at addysg uwch i bob myfyriwr.
 - Rhoi anghenion dysgwyr wrth wraidd y system addysg drwy sefydlu llwybrau dysgu a gyrfa clir a hyblyg.





NEWID DYFODOL CYMRU

CEFNOGI

TEULUOEDD A

CHYMUNEDAU



Cymdeithas deg yw un lle mae pawb yn gallu fforddio byw ac yn cael cyfle i symud ymlaen. Mae'n golygu'r gallu i ddarparu ar gyfer eich teulu, fforddio rhywle i fyw, a gweithio yn eich cymuned.

Dyna pam y byddwn yn cynyddu'r gofal plant sydd ar gael, pam y byddwn yn sicrhau bod y system fudd-daliadau yn deg, gan ganolbwyntio ar helpu pobl ac nid ar arbed arian yn unig. Dyna pam y byddwn yn mynd ati i adeiladu mwy o dai a'u gwneud yn fforddiadwy. A dyna pam y byddwn yn grymuso cymunedau lleol i benderfynu ar eu dyfodol eu hunain – yn rhydd rhag ymyrraeth llywodraeth ganolog.

Ein blaenoriaethau i Gymru fydd:

Ymestyn gofal plant am ddim i bob rhiant sy'n gweithio o ddiwedd cyfnod absenoldeb rhiant â thâl i 10 awr nes bod y plentyn yn ddwy oed, a chynyddu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu lle addysg gynnar wedi'i ariannu i blant tair i bedair oed i bymtheg awr yr wythnos.

Adeiladu 15,000 o gartrefi ychwanegol fel rhan o'n hymrwymiad i adeiladu 300,000 o gartrefi newydd ledled Cymru dros y tymor seneddol nesaf.

Cyflwyno Cerdyn Teithio Rhatach ar Fysiau newydd, wedi'i wella i bobl ifanc 16-21 oed.



7.1 Cymorth gyda chostau gofal plant

Mae rhieni, yn aml, yn dymuno cael cyfnod i ffwrdd o waith â thâl er mwyn gofalu am blant ifanc ond mewn llawer o deuluoedd mae'r ddau riant am weithio, neu'n gorfod gweithio. Gall gofal plant fod yn gostus iawn a phrin yw'r cyfleoedd i weithio'n hyblyg.


Byddwn yn:

- Ehangu Absenoldeb Rhiant a Rennir gyda mis 'ei defnyddio neu ei golli' ychwanegol er mwyn annog tadau i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith gyda phlant ifanc. Byddem yn gwneud Absenoldeb Tadolaeth ac Absenoldeb Rhiant a Rennir yn hawl 'diwrnod cyntaf'.
- Annog cyflogwyr i gynnig trefniadau gweithio mwy hyblyg, gan wneud hyn yn 'hawl diwrnod cyntaf', fel bod rhagdybiaeth bod gwaith yn hyblyg oni bai bod rheswm busnes amlwg pam na all fod yn hyblyg.

Yng Nghymru, rydym am wneud y canlynol:

- Cynnig 10 awr yr wythnos o ofal plant o safon am ddim i bob rhiant sy'n gweithio o ddiwedd cyfnod absenoldeb â thâl rhiant (naw mis) nes bod y plentyn yn ddwy oed.
- Cynnig 10 awr yr wythnos o ofal plant o safon am ddim ar gyfer pob plentyn dwy neu dair oed drwy





dynnu gofal plant oddi wrth Dechrau'n Deg ac ailfuddsoddi'r cyllid hwn mewn darpariaeth fwy hyblyg i bawb.

- Cynyddu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu lle addysg gynnar wedi'i ariannu i blant tair i bedair oed i bymtheg awr yr wythnos.

7.2 Helpu pobl i ddod o hyd i waith

I lawer o bobl, cael gwaith â thâl yw'r cyfle allweddol sydd ei angen arnynt i allu cyflawni eu nodau mewn bywyd. Nid her economaidd yn unig yw diweithdra – mae'n broblem bersonol, ac mae'n rhaid i'r llywodraeth wneud popeth o fewn ei gallu i helpu'r rhai sy'n gallu gweithio ddod o hyd i waith a darparu ar eu cyfer a'u teulu.

I'r perwyl hwnnw, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gwahanu cymorth cyflogaeth oddi wrth weinyddu budd-daliadau – gan wneud Canolfannau Gwaith yn lleoedd hyfforddiant a chymorth i weithio.
- Helpu plant i ddianc rhag tlodi drwy adael i'r ddau riant ennill cyn y caiff eu Credyd Cynhwysol ei dorri, a hefyd wrthdroi'r toriadau i'r Eifen Deuluol.
- Annog pobl i ddechrau gweithio drwy wrthdroi'r toriadau i Lwfansau Gwaith yn y Credyd Cynhwysol, gan alluogi pobl i weithio'n hirach cyn bod eu budd-daliadau yn cael eu torri.



- Codi ymwybyddiaeth o Mynediad i Waith, sy'n cefnogi pobl ag anabledau yn y gwaith, a cheisio ei ehangu.
- Gwella cysylltiadau rhwng Canolfannau Gwaith a darparwyr Rhaglenni Gwaith a'r GIG lleol er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cael budd-daliadau sy'n ymwneud ag iechyd yn cael y gofal a'r cymorth y mae ganddynt yr hawl i'w cael.

7.3 Trin pobl yn deg

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn sicr o hyn – nid yw mantoli'r cyfrifon ar draul pobl dlawd ac anabl, a demoneiddio pobl sy'n hawlio budd-daliadau, yn dderbyniol nac yn gyfrifol. Er bod yn rhaid craffu ar bob un o gyllidebau'r llywodraeth er mwyn lleihau gwastraff a sicrhau gwerth am arian, ni ddylai hyn gael ei ddefnyddio fel esgus i ymosod ar bobl dlawd a diamddiffyn. Sut bynnag, mae'n fwy effeithiol mynd i'r afael ag achosion y bil budd-daliadau – cyflogau isel, rhenti uchel, diweithdra a salwch.

Dyna pam y byddwn yn gwrthdroi polisiau annheg y Ceidwadwyr megis lleihau cymorth i bobl iau a thorri budd-daliadau pobl nad ydynt yn ddigon iach i weithio. Byddwn yn ailgyflwyno targedau tlodi cyfreithiol gyfrwymol y Ddeddf Tlodi Plant.





Byddwn yn:

- Uwchraddio budd-daliadau oedran gweithio o leiaf yn unol â chwyddiant.
- Rhoi'r gorau i'r polisi dau blentyn o ran budd-daliadau i deuluoedd, a diddymu 'cymal trais' y Ceidwadwyr lle mae'n rhaid i fenyw ddatgan bod plant wedi'u geni o ganlyniad i drais er mwyn cael budd-daliadau.
- Gwrthdroi toriadau i'r budd-dal tai i bobl ifanc 18-21 oed a chynyddu cyfraddau'r Lwfans Ceisio Gwaith a'r Credyd Cynhwysol i'r rhai 18-24 oed ar yr un gyfradd ag isafswm cyflogau.
- Gwrthdroi toriadau i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i'r rhai yn y Grŵp Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith.
- Cael gwared ar 'y dreth ystafell wely', ond ar yr un pryd geisio cyflawni'r nod o wneud y defnydd gorau o'r cyflenwad tai drwy roi cymhelliant i awdurdodau lleol helpu tenantiaid i symud i eiddo llai o faint.
- Cael gwared ar yr Asesiad Gallu i Weithio sydd wedi colli hygredded a chyflwyno system newydd yn ei le, gan gynnwys prawf 'byd go iawn' sy'n seiliedig ar y farchnad lafur leol.
- Tynnu'r cymhwysedd i gael Taliad Tanwydd Gaeaf oddi wrth bensiynwyr sy'n talu treth ar y gyfradd uwch (40%). Byddwn yn cadw'r cerdyn teithio ar fysiau am ddim i bob pensiynwr.



- Sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio banciau bwyd yn ymwybodol o'u hawliau a sut y gallant gael taliadau oherwydd caledi lle y bo'n berthnasol.

7.4 Cynilo ar gyfer eich ymddeoliad a'i fwynhau

Mae disgwyliad oes ar gynnydd. Mae hyn yn newyddion da, ond mae'n cyflwyno heriau; efallai y bydd angen incwm pensiwn ar bobl hŷn sy'n para am 20, 30 neu hyd yn oed 40 mlynedd. Rydym am sicrhau mai Prydain yw'r lle gorau yn y byd i gynilo ar gyfer eich ymddeoliad a'i fwynhau.

Byddwn yn:

- Cadw'r 'clo triphlyg', sef cynyddu Pensiwn y Wladwriaeth bob blwyddyn yn unol â'r swm uchaf o blith y twf mewn enillion, y twf mewn prisiau neu 2.5% ar gyfer y tymor seneddol nesaf.
- Cynnal adolygiad er mwyn ystyried yr achos dros gyflwyno un gyfradd rhyddhad treth i bensiynwyr a'i goblygiadau ymarferol, a fyddai'n cael ei llunio i fod yn symlach ac yn decach ac a fyddai'n cael ei phennu'n fwy hael na'r gyfradd rhyddhad sylfaenol o 20% ar hyn o bryd.



7.5 Adeiladu mwy o gartrefi a chartrefi gwell

Mae'r prinder tai wedi troi'n argyfwng. Ers llawer gormod o amser rydym wedi adeiladu llai o lawer o gartrefi nag sydd eu hangen; oni fyddwn yn adeiladu digon i ateb y galw, flwyddyn ar ôl blwyddyn, byddwn yn gweld y bydd costau tai yn cynyddu ymhellach y tu hwnt i gyrraedd.


Byddwn yn:

- Sefydlu Banc Buddsoddi Tai newydd i'r DU a gefnogir gan y llywodraeth i ddarparu cyfalaf hirdymor ar gyfer anheddiadau newydd mawr a helpu i ddenu cyllid ar gyfer prosiectau adeiladu tai mawr.
- Creu Hawl Apelio Gymunedol mewn achosion lle mae'r penderfyniadau cynllunio yn mynd yn groes i'r cynllun lleol cymeradwy.
- Sicrhau bod tai newydd yn cael eu cynllunio mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau na roddir gormod o bwysau ar y seilwaith presennol.

7.6 Prynu a rhentu

Mae prisiau tai yn uchel ym mhob rhan o'r wlad – hyd yn oed lle mae tai ar gael i'w prynu, yn aml, nid ydynt yn fforddiadwy i brynwyr tro cyntaf. Mewn sawl ardal, mae'r farchnad rentu hefyd wedi mynd yn rhy ddrud. Mae angen i'r llywodraeth roi cymorth i bobl ifanc, yn





enwedig, i'w helpu i ddod o hyd i'w cartref eu hunain a'i gadw.


Rydym am wneud y canlynol:

- Helpu pobl na allant fforddio blaendal drwy gyflwyno model newydd o 'Rhentu i Brynu' lle mae taliadau rhent yn rhoi buddran gynyddol yn yr eiddo i denantiaid, lle y gallant fod yn berchen arno'n gyfan gwbl yn y pen draw.
- Rhoi terfyn ar sgandal cysgu ar y stryd drwy roi mwy o gymorth i atal digartrefedd ac ariannu llety brys a thai â chymorth sy'n briodol i oedran unigolion, a sicrhau bod gan bob awdurdod lleol o leiaf un darparwr sy'n cynnig darpariaeth ar ffurf model Tai yn Gyntaf i bobl sydd wedi bod yn ddigartref ers amser maith ac y mae'n anodd iawn newid eu sefyllfa.

7.7 Buddsoddi yn y drafnidiaeth sydd ei hangen arnom

Mae trafnidiaeth gyhoeddus o safon uchel yn hanfodol er mwyn adeiladu cymunedau cynaliadwy. Mae angen gwell seilwaith trafnidiaeth ar Gymru, system reilffyrdd fodern sy'n cael ei rhedeg er budd ei chwsmeriaid, a llai o dagfeydd a llygredd ar y ffyrdd. Mae angen i ni sicrhau hefyd bod gan gymunedau lleol, yn enwedig cymunedau





gwledig, gysylltiadau o hyd â gwasanaethau rheilffyrdd a bws lleol.

Er mwyn adeiladu system drafnidiaeth sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif, byddwn yn:

- Sicrhau bod masnachfreintiau rheilffyrdd newydd yn cynnwys mwy o ffocws ar gwsmeriaid, a chwblhau rhaglen o fuddsoddi mewn gorsafoedd newydd, llinellau a chyfleusterau gorsaf fel mater o frys. Caniatáu i gyrrff yn y sector cyhoeddus a grwpiau cyd-fuddiannol sy'n cynnwys staff a theithwyr ymgynnig am fasnachfreintiau. Parhau â rhaglen Mynediad i Bawb, sy'n gwella mynediad pobl anabl i drafnidiaeth cyhoeddus fel blaenoriaeth allweddol.
- Trydaneiddio Prif Linell Gogledd Cymru a chyllid ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ar ailagor cysylltiadau rheilffyrdd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin.
- Buddsoddiad ym Metro De Cymru er mwyn cysylltu cymunedau ym mhob rhan o ranbarth De Cymru.
- Diddymu'r tollau, sy'n ystumio'r economi, ar y Bont dros Afon Hafren, ar ôl i'r costau gael eu hadennill yn 2018.
- Datblygu polisi strategol ar gyfer meysydd awyr i'r DU gyfan. Byddwn yn canolbwyntio ar wella meysydd awyr rhanbarthol sy'n bodoli eisoes, ac annog datblygiad maes awyr Caerdydd yn benodol. Byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw gynnydd net mewn llwybrau glanio yn y DU.





Er mwyn diogelu ac estyn trafndiaeth gyhoeddus leol, byddwn:

- Cyflwyno Ombwdsmon Rheilffyrdd i orfodi hawliau teithwyr a gwella'r ffordd y rhoddir iawndal, gyda'r pŵer i gosbi cwmnïau rheilffyrdd fel y bo'n briodol.
- Cyflwyno Cerdyn Teithio ar Fysiau yn Rhatach newydd, wedi'i wella, i bobl ifanc 16-21 oed, a fydd yn galluogi pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.
- Atal y dirywiad mewn gwasanaethau bysiau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a chynnal adolygiad o gyllido bysiau a pholisïau ynglŷn â gwasanaethau bysiau.
- Rhoi'r pwerau i Awdurdodau Lleol a chymunedau wella trafndiaeth a thocynnau gyda'r gallu i gyflwyno systemau tocynnau i'r rhwydwaith cyfan a systemau tocynnau deallus.
- Cynllunio trefi a dinasoedd fel manau cerdded diogel ac atyniadol a gweithredu argymhellion adroddiad *Get Britain Cycling*.



7.8 Cymunedau lleol yn gweithio gyda'i gilydd

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu mewn gwleidyddiaeth gymunedol – yng ngrym pobl leol i ddod ynghyd a datrys eu problemau eu hunain a chreu bywyd gwell i'w cymdogaethau. Mae hyn yn golygu adfywio llywodraeth leol ddemocrataidd, a helpu cymunedau i ymdrefnu a'u grymuso. Byddwn yn:

- Hyrwyddo rheolaeth gan denantiaid mewn tai cymdeithasol.
- Cefnogi buddsoddiad cymdeithasol, gan sicrhau y gall elusennau a mentrau cymdeithasol gael gafael ar y cymorth a'r cyllid sydd eu hangen arnynt i atgyfnerthu eu trefniadau llywodraethu a chynnig atebion arloesol a chynaliadwy i heriau yn eu cymunedau.
- Galluogi llywodraeth ganolog a lleol i flaenoriaethu cwmnïau o dan berchenogaeth cyflogeion a chwmnïau budd cymunedol wrth ddyfarnu contractau caffael drwy atgyfnerthu'r Ddeddf Gwerth Cymdeithasol.
- Annog awdurdodau i ddiogelu'r stryd fawr a defnyddwyr drwy leihau nifer y siopau betio a rhoi cap ar yr uchafswm y gellir ei fetio ar Derfynellau Betio Ods Sefydlog (FOBTs) i £2 y tro.



7.9 Y Gymraeg a'i diwylliant


Mae'r Gymraeg yn elfen annatod o wead ein gwlad. Credwn y dylai fod modd i bawb siarad eu hiaith frodorol, y dylai fod modd i bawb gael gafaél ar wasanaethau cyhoeddus o safon dda yn Gymraeg, ac y dylai'r cyfle i ddysgu Cymraeg fod ar gael i bawb.

Mae'n rhaid bod gan bawb yng Nghymru yr hawl i siarad a dysgu Cymraeg – p'un a ydych yn dod o deulu Cymraeg ei iaith neu a ydych newydd gyrraedd ein gwlad hardd, dylech fod yn gallu siarad Cymraeg yn eich cymuned.

Rydym am wneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn gallu cael addysg Gymraeg o safon, gan sicrhau bod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn diwallu anghenion cymunedau.
- Diogelu cyllid ac annibyniaeth olygyddol darlledwyr cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys ystyried datganoli ffi'r drwydded i Gymru.
- Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg drwy hyrwyddo model 'y cynnig gweithredol' gan ei gwneud yn bosibl iddo gael ei weithredu'n systemataidd ac yn effeithiol ym mhob gwasanaeth cyhoeddus.
- Gwneud asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau arfaethedig yn ofyniad





statudol cyn y rhoddir caniatâd cynllunio, gan gynnwys gwneud yr iaith yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio lle y bo'n briodol.


7.10 Mynediad at ddiwylliant a chwaraeon

Mae'r celfyddydau, y cyfryngau a chwaraeon yn hanfodol ar gyfer cyflawniad personol ac ansawdd bywyd – maent yn rhan o'r hyn sy'n troi grŵp o bobl yn gymuned. Mae Brexit wedi peryglu'r cyllid ar gyfer y sefydliadau hyn, a bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn sicrhau ein bod yn parhau i fuddsoddi yn ein cyfalaf diwylliannol.

Byddwn yn:

- Symud tuag at gyflwyno 'Sefyll yn Ddiogel' mewn clybiau pêl-droed, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon baratoi canllawiau i weithredu'r newid hwn.
- Diogelu annibyniaeth y BBC a sefydlu Comisiwn Ffi Trwydded y BBC. Diogelu cyllid ac annibyniaeth olygyddol darlledwyr cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys ystyried datganoli ffi'r drwydded i Gymru.
- Diogelu cyllid chwaraeon a'r celfyddydau drwy'r Loteri Genedlaethol.



- 
- Cynnal safonau presennol diogelwch Eiddo Deallusol gyda chydweithrediad parhaus i orfodi Eiddo Deallusol a grëir yn y DU a gweithio yn yr UE i sicrhau parhad hawliau trwyddedu tiriogaethol.
 - Ystyried y cyllid sydd ar gael ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth fyw a'r rheolau cynllunio sy'n berthnasol iddynt a'r sector cerddoriaeth ar lawr gwlad, gan ddiogelu mwy o leoliadau rhag cau.





NEWID DYFODOL CYMRU

DIWALLU

ANGEHENION

CYMRU

WLEDIG



Mae cymunedau gwledig yn hanfodol i gymeriad a chryfder Cymru. Mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol draddodiad hir o gynrychioli'r cymunedau hyn a deall eu hanghenion. Byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth uchel i fuddiannau gwledig.

Yn ein polisiâu ar drafnidiaeth, iechyd, addysg a chymunedau a nodir yn fanylach yn adrannau eraill y manifesto hwn, rydym wedi sicrhau y caiff anghenion a safbwyntiau gwledig eu cynnwys.

Ein blaenoriaethau i Gymru Wledig yw:

Brwydro i atal neu drechu yr effeithiau andwyol a gaiff colli cymorth PAC a mynediad hwylus i farchnadoedd Ewropeaidd ar ein ffermwyr.

Sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol da megis ysgolion, trafndiaeth gyhoeddus, siopau lleol, lleoliadau diwylliannol a thafarndai, yn ogystal â mwy o dai er mwyn diwallu anghenion lleol.

Gwneud Cymru yn fwy deniadol fel cyrchfan i dwristiaid.



8.1 Ffermio, bwyd ac amaethyddiaeth

Mae gadael yr UE yn rhoi busnesau ffermio a busnesau amaethyddol mewn perygl enfawr. Mae'n bygwth toriadau i'r cymorth ariannol sy'n ategu bywoliaeth ffermwyr a'u gallu i reoli cefn gwlad, a thariffau ar allforion. O ran cynhyrchion amaethyddol, mae tariffau'r UE ar gyfartaledd o 22.3% – gan olygu bod allforion bwyd Prydain, sydd werth £18 biliwn, mewn perygl.

Rhaid i'n system gefnogi ffermwyr, sicrhau y gellir cynhyrchu bwyd a diogelu'r amgylchedd.

Dyna pam y byddwn yn gwneud y canlynol:

- Parhau â'n hymgyrch hir i ddiwygio cymorthdaliadau amaethyddol – gan sicrhau bod y diwydiant ffermio ym Mhrydain yn parhau'n gystadleuol.
- Sicrhau y caiff ffermydd llai eu diogelu a rhoi'r gorau i gefnogi tîrffeddiawyr mawr, tra'n gweithredu polisi amaethyddol mwy lleol.
- Targedu cymorth a chymorthdaliadau tuag at weithgareddau rheoli tir effeithiol, gan gynnwys diogelu cefn gwlad, atal llifogydd, cynhyrchu bwyd a lliniaru newid yn yr hinsawdd.



- Annog unigolion newydd ac unigolion iau sy'n ymuno â'r diwydiant ffermio drwy hyrwyddo gwahanol fathau o berchenogaeth, gan gynnwys tenantiaethau hwy, cyd-ffermio a pherchenogaeth gymunedol.
- Parhau i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid mewn amaethyddiaeth a hyrwyddo stiwardiaeth gyfrifol o gyffuriau gwrthfotig.
- Mae TB buchol yn glefyd ofnadwy sy'n achosi dioddefaint i boblogaethau o anifeiliaid gwylt a domestig. Yn ystod y 12 mis hyd at fis Hydref 2016, cafodd 9935 o wartheg eu difa oherwydd TB. Rydym am barhau â'r ymdrechion i ddileu'r clefyd ym Mhrydain.

8.2 Y gadwyn fwyd

Byddwn yn mynd i'r afael â materion yn y gadwyn fwyd gyfan, felly byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno Strategaeth Fwyd Genedlaethol er mwyn annog ymdrechion i gynhyrchu a bwyta bwyd iach, cynaliadwy a fforddiadwy.
- Cynyddu pwerau Dyfarnwr y Cod Bwydydd ac ehangu ei gylch gwaith i gynnwys busnesau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi, gan helpu i sicrhau bod ffermwyr yn cael pris teg.



- Sicrhau bod cytundebau masnach yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i fwydydd a gaiff eu mewnforio gyrraedd safonau yr un mor uchel o ran diogelwch, yr amgylchedd a lles anifeiliaid â chynhyrchion domestig, gan gynnwys trefniadau labelu clir a diamwys ar gyfer nodi gwlad tarddiad cynhyrchion cig a chynhyrchion llaeth.

8.3 Diwydiant pysgota cynaliadwy

Er gwaethaf diwygiadau, nid yw'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin wedi cyflawni'r amcanion economaidd nac amgylcheddol angenrheidiol ac mae'r ffaith ei fod yn wahanol, wedi'i organoli ac yn fiwrocraidd wedi achosi problemau. Mae Brexit a'r marchnadoedd allforio a gaiff eu colli o ganlyniad i hynny yn bygwth difrod pellach i'r diwydiant, sydd wedi dioddef ers peth amser yn sgil y defnydd a wnaed ohono fel arf bargeinio gan lywodraethau'r DU.

Byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn amddiffyn ac yn cynnal ein diwydiant pysgota drwy sicrhau na chaiff hawliau pysgota eu cyfaddawdu er budd meysydd polisi eraill, ac yn gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer pysgodfeydd cynaliadwy.

8.4 Cymunedau gwledig

Mae angen gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol megis ysgolion, trafndiaeth gyhoeddus, siopau lleol, lleoliadau diwylliannol a thafarndai ar gymuned wledig ffyniannus. Mae angen digon o gartrefi arni, y gall teuluoedd lleol eu fforddio, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn hyfyw. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn deall y newidiadau sydd eu hangen er mwyn cefnogi cefn gwlad byw, gweithredol.


Byddwn yn:

- Sicrhau y gall pob eiddo a busnes yng Nghymru fanteisio ar wasanaeth band eang cyflym iawn a gwasanaeth ffôn symudol da.
- Ymrwymo i atal Swyddfeydd Post rhag cau ac i ddiogelu Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cynhwysol y Post Brenhinol i ddsbarthu ledled y DU am yr un pris.
- Gweithio i sicrhau cynnydd sylweddol mewn tai cymdeithasol a thai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

8.5 Twristiaeth

Mae twristiaeth yn ffynhonnell gyflogaeth bwysig yng Nghymru – ac mae'n ddiwydiant arall y mae Brexit yn debygol o effeithio arno.





Gallai archwiliadau manylach ar ffiniau lesteirio'r gallu i deithio'n ddidrafferth o'r cyfandir i Gymru – ni fyddwn yn gallu ymuno â'r rhes 'dinasyddion yr UE' gyflymach mwyach. Gallai atal pobl rhag teithio yma. Rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o wneud Cymru yn fwy deniadol fel cyrchfan i dwristiaid os byddwn yn colli ein manteision fel aelod o'r UE.

Mae ein gwestai a'n bwytai yn dweud bod angen pobl o wledydd Ewropeaidd eraill, yn ogystal â phobl o Gymru, i lenwi'r holl swyddi – yn enwedig yn ystod y tymor prysur. Byddwn yn pwyso i leihau effaith gweithdrefnau cymhleth, oedi ac ansicrwydd ar gyflogwyr ac ar ddarpar weithwyr fel ei gilydd.


Rydym hefyd yn bwriadu helpu twristiaeth yma i ffynnu, a hyd yn oed ehangu, drwy ein polisïau i wella trafndiaeth i Gymru ac o fewn y wlad.





NEWID DYFODOL CYMRU

**CADW EIN
GWLAD YN
WYRDD**



Flwyddyn yn ôl, ymddangosai fel petai'r byd wedi dod i gonsensws ynglŷn â'r angen i gymryd peryglon newid yn yr hinsawdd o ddifrif. Roedd gwledydd ledled y byd wedi cydnabod nad mater amgylcheddol yn unig oedd tymereddau uwch a llygredd, ond mater economaidd a mater diogelwch. Ond yn sgil ethol Donald Trump yn yr UD a phleidlais Prydain i adael yr UE, gallai llanw o ymynysiaeth a phoblyddiaeth atal neu hyd yn oed wrthdroi'r cynnydd a wnaed.

Mae'n ymddangos bod y Ceidwadwyr yn benderfynol o fynd â Phrydain yn ôl i'r 1980au pan mai'r DU oedd 'dyn brwnt Ewrop'. Maent wedi torri cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy ac inswleiddio cartrefi, wedi gwerthu'r Banc Buddsoddi Gwyrdd ac wedi methu â rheoli llygredd aer.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn benderfynol o ymddwyn yn unol â'n rhwymedigaethau amgylcheddol. Dyna pam y byddwn yn pasio pum deddf werdd: Deddf Trafnidiaeth Werdd, Deddf Prydain Ddi-garbon, Deddf Natur, Deddf Adeiladau Gwyrdd, a Deddf Dim Gwastraff er mwyn ymgorffori mesurau diogelu amgylcheddol presennol yr UE, cynnal safonau cynhyrchion fel y rhai ar gyfer effeithlonrwydd ynni, a llunio fframwaith ar gyfer gwelliant parhaus.



Byddwn yn:

Atal 40,000 o farwolaethau y flwyddyn gyda'n Cynllun Ansawdd Aer i leihau llygredd aer ledled y DU.

Cymeradwyo morlyn llanw Bae Abertawe ar unwaith er mwyn creu twf cynaliadwy yn y rhanbarth.

Sicrhau bod y sector ffermio yn parhau i fod yn gystadleuol ac nad yw ar ei golled – gan roi ffocws newydd ar gymorth i gynhyrchu bwyd iachus a nwyddau cyhoeddus.


9.1 Aer glân a thrafnidiaeth werdd

Mae llygredd aer yn y DU yn lladd pobl. Mae'n cyfrannu at 40,000 o farwolaethau cynamserol y flwyddyn ac yn costio £15 biliwn i'r GIG.

Dyna pam y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn pasio Deddf Trafnidiaeth Werdd, yn cyflwyno Cynllun Ansawdd Aer i leihau llygredd aer a diogelu dinasyddion y DU ac yn rhoi cymorth i weithgynhyrchu cerbydau allyriadau isel a thrydanol, gan greu swyddi ac allforion. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys:

- Cynllun sgrapio diesel, a gwaharddiad ar werthu ceir a faniau bach diesel yn y DU erbyn 2025.



- 
- Estyn Parthau Allyriadau Isel iawn i fwy o drefi a dinasoedd.
 - Bydd pob cerbyd hur preifat a phob bws diesel a drwyddedir i weithredu mewn ardaloedd trefol yn rhedeg ar danwyddau allyriadau isel iawn neu danwyddau dim allyriadau o fewn pum mlynedd.
 - Byddwn hefyd yn diwygio trethiant cerbydau er mwyn hyrwyddo gwerthiannau cerbydau trydanol ac allyriadau isel a datblygu seilwaith cerbydau trydanol, gan gynnwys pwyntiau gwefru cyffredinol.

9.2 Ynni carbon isel a swyddi gwyrdd

Pan oeddem mewn grym, hyrwyddwyd ynni gwyrdd gennym, a gwnaeth faint o drydan adnewyddadwy a gynhyrchir dreblu. Ond mae'r Ceidwadwyr wedi torri cymorth i gynhyrchwyr ynni gwyrdd dro ar ôl tro – gan niweidio'r amgylchedd a cholli swyddi ym Mhrydain. Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ehangu ynni adnewyddadwy, gan leihau allyriadau carbon, lleihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil a fewnforir a chreu mwy o swyddi a ffyniant.



Byddwn yn:

- Sefydlu Banc Datblygu Tai a Seilwaith i Brydain er mwyn denu buddsoddiad yn y seilwaith carbon isel a chynaliadwy sydd ei angen ar y DU er mwyn parhau'n gystadleuol.
- Cefnogi Cytundeb Paris drwy sicrhau bod y DU yn cyflawni ei hymrwymiadau ei hun o ran yr hinsawdd ac yn chwarae rôl arweiniol mewn ymdrechion rhyngwladol i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.
- Ehangu ynni adnewyddadwy, gyda'r nod o gynhyrchu 60% o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2030, gan adfer cymorth y llywodraeth ar gyfer ynni solar ffotoltäig ac ynni'r gwynt ar y tir mewn lleoliadau priodol (a helpu i gyflawni targedau hinsawdd am y gost leiaf) ac adeiladu mwy o ryng-gysylltwyr trydan i ategu'r ddibyniaeth uwch hon ar ynni adnewyddadwy.
- Cefnogi buddsoddiad mewn technolegau arloesol, gan gynnwys storio ynni, technoleg grid ddeallus, technolegau hydrogen, ynni'r gwynt ar y môr, ac ynni'r llanw (gan gynnwys cymeradwyo Morlyn Llanw Bae Abertawe), a buddsoddi'n sylweddol mewn ymchwil a datblygu.
- Cefnogi rhaglen dal a storio carbon uchelgeisiol, sy'n hanfodol i sicrhau twf diwydiannol glân.



- Gwrthwynebu ‘ffracio’ oherwydd ei effaith andwyol ar newid yn yr hinsawdd, y cymysgedd ynni, a’r amgylchedd lleol.
- Derbyn y gall gorsafoedd ynni niwclear newydd chwarae rhan yn y cyflenwad trydan ar yr amod yr ymdrinnir â phryderon ynglŷn â diogelwch, gwaredu gwastraff a chost yn ddigonol, bod technoleg newydd yn cael ei defnyddio, ac nad oes unrhyw gymhorthdal cyhoeddus ar gyfer gorsafoedd newydd.
- Parhau i fod yn aelod o Euratom, gan sicrhau y bydd cydweithrediad niwclear, cyllid ymchwil a mynediad at danwyddau niwclear yn parhau.

9.3 Tai gwyddach, biliau ynni is

Mae cost gwresogi a goleuo cartref arferol yn y DU, sef dros £1,200 y flwyddyn, yn rhy uchel – a gyda chyfradd gyfnewid sy’n gostwng, bydd costau’n codi eto.

Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn lleihau biliau ynni yn barhaol drwy wella inswleiddio cartrefi a hyrwyddo cynlluniau adnewyddadwy ar raddfa fach a rhai gan gymunedau ac awdurdodau lleol. Byddwn yn sicrhau bod arbed ynni yn un o’n blaenoriaethau pennaf o ran seilwaith, gan dorri biliau ynni ac allyriadau carbon yn sylweddol, creu miloedd o swyddi a helpu i roi terfyn ar yr argyfwng tloidi tanwydd unwaith ac am byth.





Ym mhob rhan o'r DU rydym am wneud y canlynol:

- Sicrhau bod o leiaf bedair miliwn o gartrefi yn effeithlon iawn o ran ynni (Band C) erbyn 2022, gan roi blaenoriaeth i aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd.
- Ehangu cynlluniau ynni cymunedol, annog cyngorau i ddatblygu prosiectau arbed ynni cymunedol a chynhyrchu trydan lleol a hyrwyddo prosiectau arddangos ar raddfa dinas mewn cerbydau trydan ac ynni glân.
- Parhau i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r farchnad ynni, gyda'r nod o sicrhau bod o leiaf 30% o'r farchnad cartrefi yn cael ei gyflenwi gan gystadleuwyr y 'Chwech Mawr' erbyn 2022.

9.4 Gwarchod natur

Mae ein hamgylchedd naturiol yn werthfawr. Mae cefn gwlad, bioamrywiaeth, bywyd gwylt a manau gwyrdd trefol yn hollbwysig i iechyd, lles ac ymdeimlad o gymuned. Mae ansawdd yr amgylchedd hefyd yn sail i ddiwydiannau allweddol megis amaethyddiaeth a thwristiaeth.





Byddwn yn:

- Sicrhau bod cadwraeth amgylcheddau naturiol a diwylliannol sydd o bwys cenedlaethol yn cael ei gydbwysu ag atebolrwydd lleol a gweithgarwch economaidd cynaliadwy.
- Gwrthdroi'r gostyngiad sydyn yn y gyfradd creu coetiroedd ar hyn o bryd a diogelu'r coetiroedd hynafol sy'n weddill.
- Atal y defnydd o neonicotinoidau dros dro nes y profir nad yw eu defnydd mewn amaethyddiaeth yn niweidiol i wenyn na phryfed peillio eraill.
- Cyflwyno cosbau llymach ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â chreulondeb i anifeiliaid, gan gynyddu'r ddedfryd fwyaf o chwe mis i bum mlynedd.
- Atal achosion o fewnforio anifeiliaid anwes yn anghyfreithlon drwy ofynion adnabod cyfreithiol ar gyfer gwerthiannau ar-lein, a lleihau'r defnydd o anifeiliaid mewn arbrofion gwyddonol, gan gynnwys drwy gyllid ar gyfer ymchwil i ddulliau amgen.



9.5 Torri gwastraff, a defnyddio adnoddau'n ddoeth

Mae economi Prydain yn methu â gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau naturiol. Ein nod yw torri gwastraff, cynyddu cyfraddau adfer, aildefnyddio ac ailgylchu a symud tuag at yr 'economy gylchol', fel y'i gelwir, lle caiff y defnydd o adnoddau, gwastraff a llygredd eu lleihau i'r eithaf a lle y caiff oes cynhyrchion ei hestyn.

Byddwn yn:

- Sicrhau budd i ddefnyddwyr drwy hyrwyddo cynhyrchion sydd wedi'u dylunio'n well er mwyn gwella'r gallu i'w hatgyweirio, eu haildefnyddio a'u hailgylchu.
- Gan adeiladu ar lwyddiant y tâl a godir ar fapiau plastig, cyflwyno tâl o 5c ar gwpanau coffi untro er mwyn lleihau gwastraff.





NEWID DYFODOL CYMRU


AMDDIFFYN

HAWLIAU,

HYRWYDDO

CYFIAWNDER A

CHYDRADDOLDEB




Cred Democratiaid Rhyddfrydol fod gan bob person hawl i'r un cyfle i lwyddo mewn bywyd. Golyga hynny chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag llwyddo - lleihau cydraddoldeb, ymladd yn erbyn camwahaniaethu, ac amddiffyn unigolion rhag llywodraeth sy'n gorgyrraedd.

Mae'n golygu hyrwyddo gwerthoedd rhyddfrydol hollgyffredinol fel didwylledd, goddefgarwch, ac undod. Mae hefyd yn golygu gwrthwynebu'r grymoedd eithafol ac ymrannol sydd yn awr yn difwyno'n gwleidyddiaeth a'n bywyd cyhoeddus. Nid y cynnydd mewn troseddau casineb, cam-drin ffoaduriaid, y rhethreg wenwynig am fewnfudo ac am fewnfudwyr eu hunain yw'r dyfodol y mae ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol ei eisiau i Brydain. Ni adawn i ymgyrchwyr dros Frecsit Caled gymryd arnynt fod hiliaeth a chamwahaniaethu yn fath o wladgarwch.

Gwnawn ymladd i sicrhau nad effeithir ar yr hyn a wnewch a pha le yr ewch mewn bywyd gan eich rhywedd, lliw eich croen, neu bwy a garwch.





Dyna pam mai i Ddemocratiaid Rhyddfrydol yn y Senedd hon, ein blaenoriaethau fydd:

Gwneud yr achos cadarnhaol dros fewnfudo a lleihau troseddau casineb drwy dargedu'r bobl sydd yn eu cyflawni a gwneud pob trosedd gasineb yn dramgwyddau a waethygir, gan ganiatáu dedfrydu troseddwyr yn llymach.

Amddiffyn hawliau dynol: byddwn yn pleidleisio yn erbyn unrhyw ymdrechion i ddileu'r Ddeddf Hawliau Dynol neu i gilio oddi wrth y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a byddwn yn cryfhau ymrwymiad y Deyrnas Unedig i gyfraith hawliau dynol rhyngwladol.

Cynnig llwybrau diogel a chyfreithiol i'r Deyrnas Unedig ar gyfer ffoaduriaid, gan ehangu Cynllun Adsefydlu Pobl Ddiymgeledd o Syria i gynnig noddfa i 50,000 dros oes y Senedd nesaf, ac ailagor cynllun Dubs i gymryd 3,000 o blant ar eu pen eu hunain sy'n ffoaduriaid o Ewrop.

7.1 Hawliau a Chydraddoldeb

Boed drwy unioni camweddau'r gorffennol, diogelu dinasyddion, neu gynyddu rhyddid, cred y Democratiaid Rhyddfrydol bod deddfwriaeth sy'n amddiffyn hawliau a rhyddid yn diogelu unigolion ac yn cymell cyfle i lawer o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol yn gwrthwynebu pob camwahaniaethu ac yn credu y dylai llywodraeth gymryd rôl weithredol wrth gosbi camwahaniaethu ac wrth sicrhau nad yw'n digwydd yn y lle cyntaf. Mae ein cymdeithas ond yn gryf unwaith y bydd yn cynnwys pawb – ni waeth beth fo'u cefndir.

Er mwyn ymestyn amrywiaeth mewn bywyd a busnes cyhoeddus, byddwn yn:

- Cyllido gofal plant helaethach, ac yn darparu gwell cefnogaeth 'dychwelyd i weithio' i gyrraedd nod uchelgeisiol o gael miliwn yn fwy o ferched mewn gwaith erbyn 2025.
- Parhau'r ymgyrch dros amrywiaeth mewn arweinyddiaeth busnes, gan bwysu am o leiaf 40% o aelodau byrddau fod yn ferched mewn cwmnïau'r FTSE 350 a gweithredu argymhellion Adolygiad Parker i gynyddu cynrychiolaeth gan leiafrifoedd ethnig.




- Ymestyn y Ddeddf Cydraddoldeb i bob cwmni mawr a chanddo dros 250 o weithwyr, gan ei gwneud hi'n ofynnol iddynt fonitro a chyhoeddi data ynglŷn â lefelau cyflogaeth a bylchau rhwng cyflogau o ran rhywedd, BAME, ac LGBT+.
- Ymestyn y defnydd o brosesau recriwtio sy'n ddall i enwau yn y sector cyhoeddus ac annog eu defnydd yn y sector preifat.
- Mynnu amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus. Byddwn yn cyflwyno rhagdybiaeth y dylai pob rhestr fer gynnwys o leiaf un ymgeisydd BAME.
- Ymestyn gofynion ar gwmnïau i gryfhau cyfrifoldeb dros gadwyni cyflenwi. Canolbwyntio ar arferion da wrth fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, yn cynnwys hyfforddi'r heddlu ac erlynyddion i ganfod ac i gefnogi dioddefwyr ac i weithredu argymhellion Adroddiad Ewins ar weithwyr domestig.

I ddiogelu hawliau ac i hyrwyddo cydraddoldeb, byddwn yn:


- Ymgyrchu dros leihau anoddefgarwch, yn cynnwys gwrth-Semitiaeth, a throseddau casineb, ochr yn ochr â mudiadau megis Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Ymddiriedolaeth Anne Frank y DU, a Chiciwch Ef Mas.
- Gofyn i'r Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Gwaed, Meinweoedd ac Organau adolygu'n gyfnodol reolau





yn ymwneud â dynion sy'n cael rhyw â dynion, a grwpiau cysylltiedig eraill sy'n rhoddi gwaed i ystyried pa gyfyngiadau sy'n parhau'n angenrheidiol.

- Gwarantu hawl pobl i wisgo gwisg grefyddol neu ddiwylliannol, a mynd i'r afael â'r niferoedd cynyddol o droseddau casineb Islamoffobig.
- Cyflwyno opsiwn 'X' ar basbortau, dogfennau adnabod, a ffurflenni swyddogol ar gyfer y rheiny nad ydynt yn dymuno cael eu hadnabod fel naill ai gwryw neu fenyw, ac ymgyrchu dros eu cyflwyno wrth ddarparu gwasanaethau eraill; e.e., cyfleustodau.
- Dad-droseddoli gwerthu a phrynu rhyw, a rheoli gwaith rhyw; lleihau niwed, amddiffyn hawliau dynol gweithwyr rhyw, a chanolbwyntio amser ac adnoddau'r heddlu ar y rheiny a baratoir, a orfodir, neu a fasnachir i'r diwydiant rhyw. Byddem yn darparu cymorth ychwanegol i'r rheiny sy'n dymuno gadael gwaith rhyw.
- Cryfhau hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol i gyplau drwy gyflwyno partneriaethau sifil rhyw cymysg ac ymestyn hawliau i gyplau sy'n cyd-fyw.
- Ymestyn amddiffyniad ailbennu rhywedd mewn cyfraith cydraddoldeb i hefyd ymdrin yn benodol â hunaniaeth a mynegiant o ran rhywedd, symleiddio Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 i ganiatáu i unigolion newid eu rhywedd cyfreithiol heb rwystrau mân-reolau diangen; er enghraifft, y profion meddygol mewnwthiol sy'n ofynnol ar hyn o bryd.

- 
- Cael gwared â'r fetó briodasol, a diddymu anghydraddoldebau sydd ar ôl mewn priodasau mewn meysydd megis pensiynau, hawliau ymweld ysbytai, a chystodaeth plant pe digwyddid profedigaeth.
 - Datblygu cynllun drwy'r llywodraeth i gyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau BAME, ac adolygu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i bennu p'un a yw'n cyflawni ei rôl yn effeithiol a ph'un a yw'i gyllid yn ddigonol.
 - Cynyddu hygyrchedd at fannau cyhoeddus a thrafnidiaeth drwy wneud mwy o orsafoedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, gwella'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli Bathodynau Glas, creu safon meincnodi ar gyfer dinasoedd hygyrch, a rhoi grym i ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 ar gamwahaniaethu gan gerbydau llogi a thacsis preifat.
 - Goresgyn tldi misglwyf drwy ddarparu cynnyrch misglwyf am ddim i enethod yn yr ysgol.
 - Gwahardd camwahaniaethu ar sail cast.
 - Ymgorffori Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith y Deyrnas Unedig.



7.2 Rhyddid

Cred Democratiaid Rhyddfrydol y dylem ni i gyd fod yn rhydd oddi wrth wladwriaeth sy'n gorgyrraedd a bod y rhyddid unigol a warantir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ganolog i gymdeithas rydd a democrataidd.

Am y rheswm hwnnw, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Gwrthwynebu unrhyw ymgais i gilio o'r ECHR neu i ddileu neu i lastwreiddio'r Ddeddf Hawliau Dynol.
- Cyflwyno Deddf Hawliau Digidol sy'n diogelu pwerau pobl dros eu gwybodaeth eu hunain, sy'n cefnogi unigolion dros gorfforaethau mawrion, ac sy'n diogelu niwtraliaeth y We.
- Yng ngoleuni methiant y wasg i ymgysylltu'n effeithiol â hunan-reoleiddio effeithiol, ceisiwn sicrhau y cyflawnir hunan-reoleiddio annibynnol, gan ddechrau ar Ran 2 Ymchwiliad Leveson cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- Rhoi diwedd ar feto gan Weinidogion ar ryddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a chymryd camau i leihau cyfran ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, lle yr atalir gwybodaeth gan adrannau'r llywodraeth.



- Gorchymyn Ofcom i lansio asesiad llawn ar unwaith o luosogrwydd y cyfryngau yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys adolygiad o'r 'prawf personau addas a phriodol' a ph'un a oes gan y rheolydd cyfathrebu, a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, bwerau priodol i ymdrin â chrynodeiadau pŵer yn yr economi digidol.


7.3 Troseddau a Phlisma

Ar ôl blynyddoedd o ostyngiad mewn troseddau traddodiadol, gwelsom gynnydd, yn neilltuol mewn troseddau treisgar, er 2015. Ar yr un pryd, mae heddluoedd o dan bwysau oherwydd gostyngiadau mewn cyllid, gyda llai o arian ar gael ar gyfer y plisma cymunedol rydym ni oll yn ei werthfawrogi.

Am y rhesymau hyn, bydd Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Cynyddu plisma cymunedol yng Nghymru a Lloegr drwy roi £300 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol i heddluoedd lleol i wrthdroi'r cynnydd mewn troseddau treisgar, i roi hwb i hyder y gymuned ac i gynyddu llif gwybodaeth a roddir gan gymunedau.
- Fel rhan o'n brwydr yn erbyn Brexit Caled, cynnal cydweithredu ar draws ffiniau er mwyn ymladd troseddau difrifol gan gangiau sydd â threfniant, yn cynnwys twyll rhyngwladol a chamfanteisio rhywiol ar blant, drwy gadw gafael ar y Warrant Arestio





Ewropeaidd, aelodaeth o Europol a chyrchu cronfeydd data gwybodaeth yr Undeb Ewropeaidd.

- Rhoi diwedd ar y cap o 1% ar godiadau cyflog yr heddlu.
- Ei gwneud hi'n ofynnol bod pob swyddog rheng flaen yn gwisgo camerâu corff tra ar ddyletswydd, gan ddiogelu'r cyhoedd rhag y camddefnydd o bŵer a diogelu'r heddlu rhag cyhuddiadau maleisus.
- Rhoi adnoddau i gymdeithasau staff y BAME, megis Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Heddlu Croenddu, i gynyddu amrywiaeth ethnig a chyfranogiad y BAME o'r heddlu.
- Darparu cyllid gan y llywodraeth ar gyfer llinell gymorth genedlaethol ar gyfer argyfwng trais, gydag oriau agor hwy a mwy o hysbysebu.
- Disodli Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, a etholir ar gost sylweddol mewn etholiadau, lle mae ychydig iawn yn pleidleisio, a sefydlu Byrddau Heddlu atebol sy'n cynnwys cyngorwyr lleol yn eu lle.
- Datblygu llwyddiant y mapiau troseddau i ddefnyddio data'n fwy effeithiol i leihau troseddau ac i wella plismona, yn cynnwys archwilio dichonoldeb ei gwneud hi'n orfodol rhoi gwybod am golledion twyll gan ddarparwyr cardiau credyd a debyd unigol.



7.4 Cyfiawnder Troseddol

Mae ar y llysoedd troseddol angen eu moderneiddio. Mae yna ormod o bobl yn y carchar. Mae ein cyfraddau ail-droseddu'n erchyll o uchel, ac mae ein carchardai - y mae llawer ohonynt yn hen ac yn fudr - mewn argyfwng, lle y ceir gormod o garcharorion a dim digon o staff o'r hanner, a lle mae camddefnyddio cyffuriau, trais, hunanladdiad a hunan-niweidio yn rhemp.

Dyna pam y bydd Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Cyflwyno Deddf Hawliau Dioddefwyr fydd yn creu un man cyswllt i ddioddefwyr yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol, cynyddu hawl dioddefwyr i gael gwybodaeth am eu hachos, a rhoi'r hawl i ddioddefwyr ofyn am gyfiawnder adferol yn hytrach na dedfryd o garchar.
- Cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn dedfrydau carchar byrion a chynyddu'r defnydd o gosbedigaethau caled, digarchar, yn cynnwys bod yn y ddalfa dros benwythnosau a chyda'r nosau, cyrffiw, gwasanaeth cymunedol, a thagio electronig â GPS.
- Hyrwyddo Paneli Cyfiawnder Cymunedol a chyfiawnder adferol a ddaw â dioddefwyr a throseddwr at ei gilydd i ddatrys gwrthdaro, i leihau niwed ac i annog adsefydlu.



- Ymestyn cyfrifoldeb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i bob troseddwr o dan 21 oed, gan roi'r pŵer iddo gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl.
- Sefydlu Bwrdd Cyfiawnder i Ferched a chanddo gylch gwaith i ddiwallu anghenion arbennig troseddwr sy'n ferched.
- Gweddnewid carchardai i fod yn fannau adsefydlu, adferiad, dysgu a gwaith, gyda thriniaethau, addysg neu waith addas ar gael i bob carcharor; defnyddio dull cyfannol o weithredu tuag at garcharorion a chanddynt broblemau lluosog; sicrhau y gellir cwblhau cyrsiau a ddechreuwyd yn y carchar ar ôl rhyddhau.
- Adolygu ymchwiliadau, erlyn, gweithdrefnau a rheolau tystiolaeth mewn achosion o drais rhywiol a domestig.
- Sicrhau bod carcharorion trawsrywiol yn cael eu rhoi mewn carchardai sy'n adlewyrchu'u hunaniaeth o ran rhywedd, yn hytrach na rhywedd eu genedigaeth.
- Lleihau gorgynrychiolaeth unigolion o gefndir BAME ym mhob cam o'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol, gan ystyried yr argymhellion sydd ar y gweill yn Adolygiad Lammy.
- Sicrhau rhagor o gyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol o ffynonellau heblaw'r trethdalwyr, yn cynnwys yswiriant ar gyfer cyfarwyddwyr cwmnïau a newidiadau i Orchmynion Ataliaeth.



7.5 Cyfiawnder Sifil a Theuluol

Mae'r gyfundrefn gyfiawnder o dan bwysau; mae Brecsit yn bygwth cydweithrediad rhyngwladol; mae'r Ceidwadwyr wedi methu ag amddiffyn rheolaeth y gyfraith sef congffaen ein democratiaeth, ac mae toriadau i gymorth cyfreithiol wedi llesteirio mynediad effeithiol at gyfiawnder i lawer o bobl.

Am y rhesymau hyn, bydd Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cadw gafael ar drefniadau rhyngwladol ar gyfer awdurdodaeth, yn cydnabod ac yn gorfodi dyfarniadau ac ar gyfer achosion teuluol, a geir ar hyn o bryd o dan Reoliadau Brwsel I a Brwsel ii yr UE a Chonfensiwn yr Hag ar Herwydio Plant.
- Cynnal adolygiad brys a chynhwysfawr o effeithiau Deddf Cymorth Cyfreithiol, Deddf Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr ar fynediad at gyfiawnder, yn neilltuo cyllid ar gyfer apeliadau llesiant cymdeithasol, a thrais domestig ac achosion eithriadol.
- Gwrthdroi'r codiadau aruthrol mewn ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd, sy'n rhwystro llawer rhag mynd ar drywydd achosion cadarn.
- Parhau i foderneiddio a symleiddio gweithdrefnau'r llysoedd.



- Diogelu'n system o adolygiadau barnwrol rhag rhagor o ymosodiadau, dal gafael ar atebolrwydd y llywodraeth dros weithredu anghyfreithlon a chynnig amddiffyniad cadarn i'n barnwriaeth a rheolaeth y gyfraith.


7.6 Terfysgaeth ac Eithafiaeth Dreisgar

Fel mae digwyddiadau diweddar ledled Ewrop – ac yng nghraidd ein democratiaeth ni'n hunain – wedi dangos, mae terfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar yn ein bygwth ni oll. Fel rhyddfrydwyr, mae'n rhaid inni gael polisi diogelwch effeithiol sydd hefyd yn atebol, sydd wedi'i seilio ar y gymuned ac ar dystiolaeth, ac nad yw'n cyfyngu'n ormodol ar ryddid personol.

Dyna pam y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Parhau â chydweithredu trawsffiniol rhwng lluoedd diogelwch ledled Ewrop.
- Caniatáu ymyrryd â chyfathrebu, lle mae cyfiawnhad, ac yn caniatáu cadw gwylidwriaeth ar y rheiny a amheuir o drosedd ddifrifol a therfysgaeth, gydag arolygiaeth farnwrol briodol.
- Diddymu strategaeth fethiannus Prevent a chyflwyno cynllun yn ei lle sy'n blaenoriaethu ymgysylltiad cymunedol ac sy'n cefnogi cymunedau i ddatblygu'u dulliau gweithredu eu hunain i oresgyn peryglon eithafiaeth dreisgar.




- 
- Ffrwyno pwerau gwylidwriaeth y wladwriaeth drwy roi diwedd ar gasglu swmp diwahân ar ddata cyfathrebu, hacio swmp, a chasglu Cofnodion Cysylltiad Rhyngrwyd.
 - Gwrthwynebu ymdrechion y Ceidwadwyr i danseilio amgryptio.
 - Hysbysu pobl ddiniwed sydd wedi’u gosod o dan wylidwriaeth a dargedir os gellir gwneud hyn heb beryglu ymchwiliadau sy’n mynd rhagddynt.

7.7 Brwydro yn erbyn y niwed a wneir gan gyffuriau

Mae’r rhyfel yn erbyn cyffuriau wedi bod yn fethiant trychinebus. Bob blwyddyn, mae biliynau o bunnau’n llifo i droseddau a drefnir gan gangiau, tra ein bod yn erlyn ac yn carcharu’n ddiangen filoedd o bobl, gan ddifetha’u cyfleoedd gwaith a bywyd, a chan wneud dim i oresgyn effaith cyffuriau ar eu hiechyd. Nid yw’n hymagweddiad cyfredol at gyffuriau’n helpu neb, ac eithrio gangiau troseddol.





Am y rheswm hwnnw, bydd Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Rhoi diwedd ar garcharu oherwydd bod cyffuriau anghyfreithiol er defnydd personol yn eu meddiant, gan ddargyfeirio'r rheiny a arestir am feddu ar gyffuriau er defnydd personol am driniaeth ac addysg (gan fabwysiadu dull wedi'i seilio ar iechyd o weithredu), neu osod cosbau sifil.
- Chwalu dylanwad a gafael y gangiau troseddol a diogelu pobl ifanc drwy gyflwyno marchnad gyfreithiol ac a reoleiddir ar gyfer canabis. Byddem yn cyflwyno terfynau ar nerth y cyffur ac yn caniatáu gwerthu canabis drwy sefydliadau trwyddedig i oedolion dros 18 mlwydd oed.
- Canolbwyntio ar ddal ac erlyn y rheiny sy'n cynhyrchu, yn mewnforio, neu sy'n gwerthu cyffuriau anghyfreithlon.
- Diddymu'r Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol, sydd wedi rhoi hwb i werthiant 'symbylyddion cyfreithiol' o'r golwg.
- Symud yr arweinydd adrannol ar bolisi cyffuriau i'r Adran Iechyd.




7.8 Mewnfudo a Lloches

Mae yna ymosodiad ar fewnfudo a lloches. Nid yw Democratiaid Rhyddfrydol yn credu bod hyn yn iawn. Mae mewnfudo'n hanfodol i'n heconomi ac o fudd i'n cymdeithas. Dibynnwn ar fewnfudo i sicrhau bod gennym y bobl y mae arnom eu hangen i gyfrannu at economi a chymdeithas y Deyrnas Unedig, yn cynnwys meddygon, gweithwyr amaethyddol, entrepreneuriaid, a gwyddonwyr a llawer eraill. Mae mewnfudo'n ehangu'n gorwelion ac yn ein hannog i fod yn fwy agored, yn fwy goddefgar.

Mae ffoaduriaid yn fodau dynol sy'n ffoi o barthau rhyfel ac erledigaeth, ac mae yna ddyletswydd gyfreithiol a moesol arnom i gynnig noddfa iddynt. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn falch o ymrwymadau hanesyddol y Deyrnas Unedig i gynorthwyo'r rheiny sy'n ceisio lloches rhag rhyfel, erledigaeth a thriniaeth ddiraddiol, ac fe gredwn y dylwn barhau i gynnal ein cyfrifoldebau.

Mae'r systemau mewnfudo a lloches wedi dioddef o aneffeithlonrwydd ac ôl-groniadau ac oediadau difrifol dros flynyddoedd lawer, gan lesteirio'u hygyrdd a'u gallu i weithredu'n effeithiol. Cydnabyddwn fod mewnfudo ar raddfa fawr wedi gosod pwysau ar rai





cymunedau a gwasanaethau lleol. Mae angen gwelliannau sylweddol iawn ar frys.

Am y rheswm hynny, pan ddaw hi'n fater o fewnfudo, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Sicrhau bod y system fewnfudo'n cael ei gweithredu'n deg ac yn effeithlon, gyda rheolaeth lem dros ffiniau, yn cynnwys archwiliadau wrth ddod i mewn ac wrth adael y wlad, a Heddlu Ffiniau wedi'u cyllido'n ddigonol i blismona rhag i bobl ddod i'r wlad drwy lwybrau llechwraidd.
- Cynnal dadl flynyddol yn y Senedd ar y diffygion a'r gwargedion yn y farchnad sgiliau a llafur er mwyn canfod lefel y mewnfudo angenrheidiol i ddiwallu anghenion y Deyrnas Unedig.
- Parhau i ganiatáu pobl â sgiliau uchel fewnfudo er mwyn cynnal sectorau allweddol ein heconomi, ac er mwyn sicrhau y caiff teithebau gwaith, twristiaid a theuluoedd eu prosesu'n gyflym ac yn effeithlon.
- Gan gydnabod bod eu statws i raddau helaeth yn statws dros dro, hepgor myfyrwyr o'r ystadegau ymfudo swyddogol.
- Sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn gyrchfan ddeniadol i fyfyrwyr tramor. Byddwn yn adfer teithebau gwaith ôl-astudiaeth ar gyfer graddedigion mewn pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) a all ganfod gwaith addas o fewn chwe mis ar ôl graddio. Rhoi'r hawl i'r gweinyddiaethau



- datganoledig noddi teithebau gwaith ôl-astudiaeth ychwanegol.
- Gweithio â phrifysgolion i sicrhau proses deitheb i fyfyrwyr sy'n deg a thryloyw a chanfod ffyrdd o fesur yn gywir y nifer o fyfyrwyr sy'n gadael ar ddiwedd eu cwrs.
 - Sefydlu Cronfa Effaith Mewnfudwyr a gyllidir yn ganolog i helpu cymunedau lleol i addasu i fewnfudwyr newydd ac i allu ymdrin â phwysau annisgwyl ar wasanaethau cyhoeddus a thai.
 - Darparu cyllid ychwanegol gan y llywodraeth ar gyfer dosbarthiadau Saesneg fel Iaith Ychwanegol i helpu mewnfudwyr a phreswylwyr i ennill annibyniaeth ac i integreiddio yn eu cymunedau lleol.

Ac o ran lloches, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn:

- Cymhwyso'r system loches yn deg, yn effeithlon ac yn hynaws, yn cynnwys y broses ar gyfer y rheiny nad oes ganddynt hawl i fod yma.
- Cynnig llwybrau diogel a chyfreithiol i'r Deyrnas Unedig i ffoaduriaid i'w hatal rhag mynd ar deithiau peryglus, sydd yn rhy aml yn arwain at golli bywydau; er enghraifft, drwy ddiwygio rheolau aduno teuluoedd er mwyn ei gwneud hi'n haws i ffoaduriaid ymuno â pherthnasau sydd eisoes yn byw mewn diogelwch yn y Deyrnas Unedig.



- Ehangu'r Cynllun Adsefydlu Pobl Ddiymgeledd o Syria i gynnog noddfa i 50,000 dros oes y Senedd nesaf.
- Ailagor cynllun Dubs ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ffoaduriaid, gan sicrhau bod Prydain yn bodloni'i chyfrifoldebau drwy dderbyn 3,000 o blant ar eu pen eu hunain sy'n ffoaduriaid. Byddai Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnog caniatâd penagored i'r plant hyn aros, sy'n golygu na chânt eu halltudio unwaith y byddant yn cyrraedd 18 oed.
- Rhoi diwedd ar gadw mewnfudwyr yn y ddalfa am gyfnod amhenodol drwy gyflwyno terfyn o 28 niwrnod.
- Cyflymu'r gwaith o brosesu ceisiadau am loches, gan ostwng yr amser y mae'n rhaid i ffoaduriaid diffuant aros cyn y gallant ymgartrefu i fywyd yn y Deyrnas Unedig.
- Disgwyl i geiswyr lloches o oed gweithio, sydd wedi aros mwy na chwe mis i'w cais gael ei brosesu, chwilio am waith fel pobl eraill sy'n ceisio budd-daliadau, ac ond i dderbyn budd-daliadau os ydynt yn methu â chael gwaith.
- Cynnig lloches i bobl sy'n ffoi o wledydd, lle mae'u cyfeiriadedd rhywiol neu'u hunaniaeth o ran rhywedd yn golygu y gallant gael eu carcharu, eu harteithio, neu'u dienyddio, a rhoi'r gorau i alltudio pobl sydd mewn perygl i'r cyfryw wledydd.






NEWID DYFODOL CYMRU

CREU BYD

GWELL



Mae Democratiaid Rhyddfrydol yn rhyngwladwyr – deallwn y gall pobl a gwledydd, drwy gydweithio, gyflawni llawer mwy nag y gallant ar eu pen eu hunain.

Mae'n amser anodd i bobl sy'n credu mewn cydweithredu rhyngwladol. Mae Rhyddfrydwyr wedi cael eu herio gan y bleidlais i adael yr UE, gan etholiad arweinwyr sy'n gynyddol genedlaethol ac ymynysol ledled y byd, a llywodraeth Geidwadol sy'n ceisio cytundebau masnach newydd â gwledydd sy'n sylfaenol wrthwynebus i'n gwerthoedd rhyddfrydol. Gydag ethol Donald Trump a chyda Rwsia'n lluchio'i phwysau'n gynyddol, mae'n rhaid inni weithio i amddiffyn y drefn ryddfrydol ryngwladol.

Cred Democratiaid Rhyddfrydol mai rôl Prydain yn y byd yw bod yn wladgarol, yn optimistaidd, ac yn flaengar - gweithiwn â'n partneriaid Ewropeaidd a'n partneriaid rhyngwladol eraill i hyrwyddo'r delfrydau sy'n dod â ni at ein gilydd ac yn ein gwneud yn ddiogelach. Eiriol dros hawliau dynol, helpu'r bobl dlotaf yn y byd, diogelu'n gwlad a'n cynghreiriaid.



Yn y Senedd nesaf, ein blaenoriaethau fydd:


Diogelu, hyrwyddo, ac amddiffyn y drefn ryngwladol agored a chydweithredol a seilir ar reolau, yn cynnwys sefydliadau amlochrog fel y Cenhedloedd Unedig a NATO, sydd yn gynyddol o dan fygythiad.

Parhau i wario 0.7% o Incwm Gwladol Gros ar gymorth: lleihau tlodi, amddiffyn hawliau dynol, diogelu'r amgylchedd, ac atal gwrthdaro treisgar yn fyd-eang.

Rheoli allforion arfau i wledydd a restrir fel gwledydd blaenoriaethol o ran hawliau dynol yn adroddiad hawliau dynol blynyddol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ac atal gwerthu arfau i Sawdi Arabia.

8.1 Gweithio dros heddwch a diogelwch ledled y byd

Mae'n amser heriol yn awr i heddwch a diogelwch ledled y byd. Mae mudiadau terfysgol yn llewyrchu, mae'r gwrthdaro yn Syria yn parhau i fod yn broblem sylweddol i'r rhanbarth ac i'r byd, ac mae tyndrâu cynyddol rhwng Rwsia a'r UDA yn bygwth cydbwysedd grym sydd wedi bodoli ers cryn amser.



Mae gan y Deyrnas Unedig hanes balch o fod â rôl flaenllaw yn yr Undeb Ewropeaidd ac mewn sefydliadau rhyngwladol fel y Cenhedloedd Unedig, NATO a'r Gymanwlad, ac fe ddylai barhau i wneud hynny, gan hybu, lle bynnag y bo'n bosibl, y gwerthoedd rhyddfrydol o ryddid a chyfle i bawb.

Byddwn yn:

- Eiriol dros y drefn ryngwladol sy'n seiliedig ar reolau, sy'n darparu sail gref ar gyfer gweithredu amlochrog i roi sylw i broblemau mwyaf ysgeler y byd, yn cynnwys tlodi, gwrthdaro arfog, afiechydon, newid yn yr hinsawdd, a cham-drin hawliau dynol, yn cynnwys priodasau dan orfodaeth, llofruddiaethau 'anrhydedd' bondigrybwyll, ac Anffurfio Organau Cenedlu Benywod.
- Defnyddio pob agwedd o bolisi'r llywodraeth - masnach, cymorth a diplomyddiaeth, yn ogystal â chydweithredu milwrol - i gryfhau ymdrechion y Deyrnas Unedig i atal gwrthdaro treisgar.
- Gweithio â'n partneriaid rhyngwladol i fynd i'r afael â'r argyfwng parhaus yn ymwneud â ffoaduriaid, sydd wedi gweld mwy o bobl yn cael eu dadleoli ledled y byd nag erioed o'r blaen.
- Cefnogi egwyddor y Cenhedloedd Unedig o Gyfrifoldeb dros Ddiogelu, gan ganolbwyntio ar atal gwrthdaro, a dim ond troi at ymyrraeth filwrol i atal erchyllterau torfol yn erbyn dinasyddion cyffredin os






yw pob modd arall o ddatrys y broblem wedi cael cyfle ond wedi methu.

- Gwella rheoli allforio arfau drwy:
 - Gweithredu polisi o ‘ragdybiaeth o wrthodiad’ ar gyfer allforio arfau i wledydd a restrir fel Gwledydd â Blaenoriaeth Hawliau Dynol yn adroddiad hawliau dynol blynyddol Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.
 - Gorfodi ardystiad ‘defnyddiwr terfynol’ ar bob trwydded allforio arfau yn y dyfodol, gydag adroddiad blynyddol i’r Senedd ar yr ardystiad hwn.
 - Creu cofrestr gyhoeddus o froceriaid arfau.

Cred Democratiaid Rhyddfrydol bod ymyrraeth filwrol, er gwaethaf ymdrechion i atal gwrthdaro treisgar, weithiau’n angenrheidiol. Dylai’r Deyrnas Unedig ond ymyrryd yn filwrol pan fo yna achos cyfreithiol a/neu ddyngarol pendant, a gadarnhawyd gan bleidlais yn y Senedd, gan weithio drwy sefydliadau rhyngwladol, lle bynnag y bo’n bosibl. Byddwn yn annog deialog a chyfryngu i leihau gwrthdaro rhwng ac oddi fewn i wledydd, gan weithio drwy’r Cenhedloedd Unedig ac asiantaethau eraill.





Mewn ymateb i wrthdaro sylweddol cyfredol yn fyd-eang, byddwn yn:

- Gweithio â phartneriaid rhyngwladol i oresgyn eithafiaeth dreisgar fel a amlygir gan fudiadau fel Daesh a Boko Haram, gan roi sylw arbennig i ddinasyddion Prydeinig sydd wedi bod yn ymladd dramor dros fudiadau terfysgol, ac a all ddod yn ffynonellau sylweddol o weithgareddau terfysgol, os a phan ddychwelant i Brydain.
- Ceisio ffyrdd newydd o roi diwedd ar y gwrthdaro yn Syria, gan weithio o fewn y Cenhedloedd Unedig i ddatrys y sefyllfa ddiddatrys yng Nghyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Gwnawn weithio i atal y defnydd o ymosodiadau cemegol a chonfensiynol ar ddinasyddion cyffredin, a mynnu mynediad dyngarol a rhyddhau carcharorion gwleidyddol a'u teuluoedd.
- Parhau'n ymrwymedig i gytundeb heddwch drwy drafodaeth i ddatrys y gwrthdaro rhwng Israel a Phalestina, sy'n cynnwys datrysiad dwy wladwriaeth. Collfarnwn y defnydd o rym anghymesur gan bob ochr. Collfarnwn ymosodiadau rocedi Hamas ac ymosodiadau eraill a dargedir yn erbyn dinasyddion cyffredin Israel. Collfarnwn bolisi anghyfreithiol Israel o barhau i ehangu aneddiadau, sy'n tanseilio'r posibilrwydd o ddatrysiad dwy wladwriaeth. Cefnogwn gydnabod Gwladwriaeth annibynnol Palestina fel a phan bydd yn helpu'r rhagolygon o ddatrysiad dwy wladwriaeth.



- Atal gwerthu arfau Prydeinig i Sawdi Arabia mewn ymateb i'r ffaith eu bod yn targedu dinasyddion cyffredin yn gyson yn Iemen, gan dorri Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol. Gwnawn weithio â phartneriaid rhyngwladol i aildechrau'r broses heddwch yn Iemen.
- Hyrwyddo democratiaeth a sefydlogrwydd yn yr Wcráin a gwledydd cyfagos yn erbyn Rwsia sy'n gynyddol ymosodol. Gwnawn weithio'n agos â phartneriaid Ewropeaidd a phartneriaid rhyngwladol eraill i roi'r pwysau economaidd a gwleidyddol mwyaf ar Rwsia i roi'r gorau i ymyrryd â materion gwladwriaethau sofran yn Nwyrain Ewrop, ac fe wnawn gadw at ein rhwymedigaethau o dan gytundeb NATO petai yna fygythiadau i aelod-wladwriaethau NATO.

8.2 Ein lluoedd arfog a'n gwasanaethau diogelwch

Mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig allu amddiffyn ei hun a'r tiriogaethau y mae ganddi gyfrifoldeb drostynt, cefnogi ei chymdogion a'i chynghreiriaid, a chymryd rhan mewn ymyrraeth ddyngarol. Caiff yr heriau o ran diogelwch sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig eu rhannu gan ein partneriaid a'n cynghreiriaid yn yr UE a NATO, ac mae'r Deyrnas Unedig yn fwy effeithiol ac yn gadarnach pan weithiwn yn agos â'r partneriaid hynny.






Byddwn yn:

- Ymrwymo i wario 2% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) ar amddiffyn.
- Cryfhau'n gwasanaethau arfog a mynd i'r afael â'r diffygion sgiliau dybryd drwy recriwtio graddedigion STEM i fod yn beirianwyr yn y lluoedd arfog, gan ddarparu 'ysgogiad euraid' o hyd at £10,000.
- Cydnabod bod dulliau rhyfela'n ehangu i'r seibersffêr, drwy fuddsoddi yn ein gwasanaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a gweithredu i ymladd ymosodiadau seiber.
- Gweithio i arwain ymdrechion diarfog niwclear rhyngwladol.
- Cynnal yr atalrym niwclear lleiaf. Bwriadwn barhau â'r rhaglen Dreadnought, sef llongau tanfor i ddisodli'r Vanguard, ond cael tri chwch yn hytrach na phedwar ohonynt, a symud i osgo ymateb parodrwydd canolig. Byddai hyn yn golygu hepgor atalrym parhaus ar y môr - yn lle hynny, cynnal yr atalrym drwy weithgareddau megis patrymau cylchwylio anrhagweladwy ac afreolaidd.
- Adeiladu ar y fframwaith ar gyfer cydweithredu ar amddiffyn sydd eisoes wedi'i hen sefydlu gyda Ffrainc, yr Iseldiroedd, yr Almaen a phartneriaid Ewropeaidd eraill, a hyrwyddo integreiddio amddiffyniad Ewrop, lle y bo'n briodol, drwy gryfhau cydweithredu o fewn diwydiant amddiffyn Ewrop.





Mae Democratiaid Rhyddfrydol yn cydnabod y rôl hanfodol sydd gan luoedd arfog y Deyrnas Unedig wrth amddiffyn y genedl, ac fe gredwn mai rôl y llywodraeth yw diogelu buddiannau personél y gwasanaeth a hen filwyr. Byddwn yn:

- Cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog a gwaith cyfredol i gynorthwyo iechyd meddwl hen filwyr.
- Adolygu'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa (CTP) gyfredol gyda golwg i ymestyn ei chylch gwaith i ddarparu Addysg Bellach ac Addysg Uwch am ddim i bawb sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog am 12 mlynedd neu fwy.
- Gwella ansawdd tai yn y lluoedd arfog drwy gael y Weinyddiaeth Amddiffyn i weithredu yn unol â landlordiaid eraill, gan roi'r un hawliau cyfreithiol i denantiaid i gael gwaith atgyweirio a chynnal a chadw wedi'i wneud ag sydd gan denantiaid preifat.

8.3 Datblygu Rhyngwladol

Mae Democratiaid Rhyddfrydol yn wastad wedi bod – ac yn parhau – ag ymrwymiad cryf i sicrhau cyfiawnder a thegwch i bobl dlawd ledled y byd. Drwy weithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, fe gredwn fod yn rhaid i'r Deyrnas Unedig barhau i fod â rôl arweiniol i ddileu tlodi a hyrwyddo datblygu sy'n amgylcheddol gynaliadwy.






Byddwn yn:

- Cynnal ein hymrwymiad i wario 0.7% o Incwm Gwladol Gros y Deyrnas Unedig ar gymorth datblygu tramor, yn unol â diffiniad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), y gwnaethom ddeddfu drosto yn y Senedd ddiwethaf.
- Buddsoddi i ddileu, o fewn cenhedlaeth, afiechydon y mae modd eu hatal, fel y diciâu, HIV a malaria, ac archwilio ffyrdd newydd o gefnogi ymchwilio i, a datblygu brechiadau a thriniaethau i drechu'r afiechydon hyn ac afiechydon a heintiau angheuol eraill.
- Datblygu strategaeth addysg fyd-eang i roi sylw i'r argyfwng cyllido brys sy'n peri i 263 miliwn o blant golli addysg.
- Arwain gweithredu rhyngwladol i sicrhau bod cwmnïau byd-eang yn talu trethi teg yn y gwledydd sy'n datblygu lle maent yn gweithredu, yn cynnwys tynhau rheolau hafanau gwrth-drethi a mynnu bod cwmnïau mawrion yn cyhoeddi'u taliadau treth a'u helw ar gyfer pob gwlad lle maent yn gweithredu.
- Parhau i ddatblygu cadernid y gwledydd tlotaf i wrthsefyll trychinebau yn y dyfodol, buddsoddi mewn gofal iechyd a seilwaith a hyfforddi gwirfoddolwyr ymateb brys, ac ymateb yn hael i argyfyngau dyngarol, lle bynnag y bônt yn digwydd.



- 
- Darparu mwy o adnoddau ar gyfer cydweithredu amgylcheddol rhyngwladol, yn neilltuoel o ran newid yn yr hinsawdd ac ar gyfer camau i oresgyn masnachu anghyfreithiol ac anghynladwy mewn coed, bywyd gwylt, ifori, a physgod.
 - Yng ngoleuni ymosodiadau peryglus a gwrthwyddoniaeth llywodraeth yr Unol Daleithiau ar raglenni rhyngwladol o frechu a chynllunio teulu, sy'n effeithio'n anghymesur ar iechyd merched a phlant, ceisio diogelu gwariant byd-eang ar y darpariaethau hanfodol hyn.

8.4 Gwneud safiad dros werthoedd Rhyddfrydol


Cred Democratiaid Rhyddfrydol y dylai polisi tramor a chymorth rhyngwladol Prydain geisio hyrwyddo'r gwerthoedd rhyddfrydol o hawliau dynol a democratiaeth drwy'r byd i gyd.

Byddwn yn:

- Cefnogi cyfryngau rhydd a rhyngrwyd rhydd ac agored ledled y byd, gan eiriol dros lif rhwydd gwybodaeth.

- Cefnogi menter gyfredol y Deyrnas Unedig i ddiogelu newyddiadurwyr ac i frwydro yn erbyn yr anghosbedigaeth a welir mewn llawer o wledydd tuag at y rheiny sy'n ymosod ar newyddiadurwyr ar flaen y gad. I'r perwyl hwn, byddwn yn darparu cyllid pan fo angen i Raglen Ryngwladol UNESCO ar gyfer Datblygu Cyfathrebu.
- Ymgyrchu'n gryf dros ddileu'r gosb eithaf ledled y byd.
- Eiriol dros fentrau gwrthlygredd byd-eang i ddiogelu diogelwch byd-eang a datblygu economaidd ac i gynnal llais cryf ar lwyfannau rhyngwladol ynglŷn â rhoi diwedd ar lygredd. Gwnawn weithredu ymrwymiadau nas cadwyd, a wnaed gan Lywodraeth Prydain yn Uwchgynhadledd Gwrthlygredd Fyd-eang 2016.
- Cyhoeddi strategaeth wrthlygredd gan y llywodraeth.
- Cyflwyno archwiliadau Nodau Datblygu Cynaliadwy o gytundebau masnachu, buddsoddi a datblygu newydd, gan adolygu effaith y cytundeb ar Bobl, y Blaned, Llewyrch, Heddwch, a Phartneriaeth.
- Cynnal y cyllid ar gyfer Gwasanaeth Byd y BBC, Gwasanaeth Monitro'r BBC a Chyngor Prydain.
- Datblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo dad-droseddoli gwrywgydiaeth ledled y byd, a hybu achos hawliau LGBT+.



- 
- Blaenoriaethu cefnogaeth, amddiffyniad a hawliau cyfartal i ferched a genethod, sy'n gywir ac yn hanfodol, fel ei gilydd, ar gyfer datblygu economaidd effeithiol, cynaliadwy. Gwnawn anelu at roi diwedd ar anffurfio organau cenhedlu benywod drwy'r byd i gyd o fewn cenhedlaeth.
 - Penodi Hyrwyddwr dros Ryddid Credo ar lefel Llysgennad i gymell ymdrechion diplomyddol Prydain yn y maes hwn, ac fe wnawn ymgyrchu dros ddileu deddfau cabledd, cynnwrf, gwrthgiliad ac enllib troseddol drwy'r byd i gyd, gan ein bod eisoes wedi bod yn gyfrifol am eu dileu yn y wlad hon.



